

# Pris
# Tlodi Disgyblion

## Defnyddio Dull Ysgol Gyfan i Wella Lles plant o deuluoedd incwm isel a theuluoedd difreintiedig


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

Plant yng Nghymru yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol, statudol a phroffesiynol ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluodd yng Nghymru. Ei nodau yw hyrwyddo buddiannau'r grwpiau hyn, gwella gwasanaethau yng Nghymru a gosod plant yn uchel ar agenda Cymru.


## Diolchiadau:

Fe hoffem ddiolch i'r bobl a ganlyn am eu cefnogaeth a'u cyngor gwerthfawr wrth ddatblygu'r canllawiau hyn:

Aelodau o Grŵp Llywio Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru.

END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU
RHWYDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

Swyddogion Adran Addysg Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.



Ysgrifennwyd y Canllawiau hyn gan:

**Cheryl Martin**
Swyddog Datblygu, Plant yng Nghymru

**Sean O'Neill**
Cyfarwyddwr Polisi, Plant yng Nghymru



© Plant yng Nghymru, Iau 2019
www.plantyngnghymru.org.uk
Rhif elusen gofrestredig: 1020313



Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

**Pris**
# Tlodi Disgyblion

Defnyddio Dull Ysgol Gyfan i Wella Lles plant o deuluoedd incwm isel a theuluoedd difreintiedig



0

# Cyflwyniad


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

Pris Tlodi Disgyblion - Defnyddio Dull Ysgol Gyfan i Wella Lles plant o deuluoedd incwm isel a theuluoedd difreintiedig

Mae Canllawiau Pris Tlodi wedi cael eu datblygu ar gyfer ysgolion a gynhelir a lleoliadau addysg eraill yng Nghymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o brofiadau byw dysgwr o deuluoedd incwm isel a theuluoedd difreintiedig, gan amlinellu'r effaith mae tlodi yn ei gael ar fywydau plant o ddydd i ddydd ac i ddarparu atebion gwirioneddol a chost effeithiol i ysgolion a allai helpu i oresgyn rhwystrau tuag at les gwell i ddysgwyr.

Mae'r 5 Canllaw yn seiliedig ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â lefelau cynyddol o dlodi plant ac i wella iechyd meddwl a lles emosiynol yr holl blant yng Nghymru, gan ddefnyddio deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau allweddol Llywodraeth Cymru.

Mae cynnwys y Canllawiau a'r atebion a gynigir, wedi cael eu llywio gan waith blaenorol a gynhaliwyd yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU sy'n cydnabod mesurau presennol sydd eisoes yn cael eu rhoi ar waith gan ysgolion i leihau effaith tlodi ar les dysgwyr ac i helpu i wella cynnydd dysgwyr unigol. Mae llawer o waith ymchwil wedi ei wneud dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gyda llawer o weithwyr addysg proffesiynol yn adrodd am gynnydd sylweddol yn amlygrwydd tlodi plant yn eu hysgolion a'r rhwystrau mae hyn yn eu cyflwyno.

Y ffordd orau i ddarllen y Canllawiau hyn yw fel un ddogfen ond gellir ymwneud â nhw yn annibynnol. Mae'r Canllawiau wedi'u gosod yn thematig, ac maen nhw'n esbonio sut mae tlodi yn effeithio ar wahanol agweddau ar y diwrnod ysgol:

1. Deall achosion, sbardunau allweddol ac effaith tlodi ar ddisgyblion sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel
2. Gwisg Ysgol a Dillad
3. Bwyd a Newyn
4. Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol
5. Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol

Fel rhan o ddatblygiad y Canllawiau hyn, mae ymgynghori wedi digwydd gyda phartneriaid strategol gan gynnwys academyddion, gwneuthurwyr polisi, athrawon, sefydliadau trydydd sector a swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, a bydd cyhoeddiad diweddar y Comisiynydd 'Siarter ar gyfer Newid[1]' yn gweithredu i ategu'r Canllawiau hyn.

Yn ogystal â chael eu llywio gan flaenoriaethau presennol Llywodraeth Cymru, mae'r Canllawiau yn tynnu ar ymchwil sydd wedi archwilio'r berthynas rhwng tlodi plant ac addysg, yn ogystal ag ymholiadau nodedig a gynhaliwyd gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn enwedig eu Hymchwiliad i Ganlyniadau Addysgol Plant o Gartrefi Incwm Isel ac 'On the Money', Ymchwiliad oedd yn cynnwys edrych ar y defnydd o Grant Datblygu Disgyblion Llywodraeth Cymru.

Bydd pob canllaw yn rhoi enghreifftiau o'r camau ymarferol y gall ysgolion eu cymryd trwy ddefnyddio dull ysgol gyfan i leihau effaith tlodi ar brofiadau plant yn yr ysgol o ddydd i ddydd, mae nifer ohonynt yn fesurau cost isel neu'n fesurau heb gost.


1 'Siarter ar gyfer Newid: Amddiffyn Plant yng Nghymru rhag effaith tlodi', Comisiynydd Plant Cymru, 2019



Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

Pris
# Tlodi Disgyblion

Defnyddio Dull Ysgol Gyfan i Wella Lles plant o deuluoedd incwm isel a theuluoedd difreintiedig



# 1 Deall achosion, sbardunau allweddol ac effaith tlodi ar ddisgyblion sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5


Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative

ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission

PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES


# Cyflwyniad

Deall achosion, sbardunau allweddol ac effaith tlodi ar ddisgyblion sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel

Mae gan bob plentyn hawl i addysg, a bwriedir i addysg yng Nghymru fod yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, nid yw pob teulu yn gallu fforddio rhai o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag addysg eu plentyn. Er gwaethaf hyn, mae nifer o gamau ymarferol mae ysgolion yn eu cymryd, ac y gallent eu cymryd i liniaru'r effaith mae tlodi yn ei gael ar brofiadau plant o ddydd i ddydd yn yr ysgol, yn aml am gost isel neu ddim cost i gyllideb yr ysgol.

Mae ysgol sy'n ystyried ac yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl blant o deuluoedd incwm isel yn cael profiad teg yn eu bywyd ysgol hefyd yn ysgol sy'n helpu i sicrhau hawliau dynol eu disgyblion dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Mae nifer o'r hawliau hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun plant a'u profiad yn yr ysgol

- Rhaid i fuddiannau gorau'r plentyn fod yn flaenoriaeth uchaf bob amser yn yr holl benderfyniadau a gweithredoedd sy'n effeithio ar blant. (Erthygl 3)
- Yr hawl i addysg sy'n datblygu personoliaeth, doniau a galluoedd y plentyn i'r graddau llawnaf posibl. (Erthyglau 28 a 29)
- Yr hawl i'r iechyd gorau posibl, mae hyn yn cynnwys yr hawl i fwyd maethlon digonol a dŵr glân. (Erthygl 24)
- Yr hawl i oroesi a datblygu. (Erthygl 6)
- Yr hawl i ddweud eu barn ynghylch a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt (Erthygl 12)
- Yr hawl i beidio â gwahaniaethu. (Erthygl 2)
- Yr hawl i safon byw ddigonol sy'n ddigon da i fodloni anghenion corfforol a chymdeithasol plentyn a chefnogi eu datblygiad. Mae'n rhaid i Lywodraethau helpu teuluoedd sydd angen cefnogaeth gyda'r pethau hyn. (Erthygl 27)
- Yr hawl i weithgareddau hamdden, chwarae, celf a diwylliannol. (Erthygl 31)




Mae'r dystiolaeth a'r enghreifftiau a ddarperir drwy'r Canllawiau hyn, ar ffurf ystadegau ond hefyd drwy leisiau plant, pobl ifanc, rhieni/gofalwyr ac athrawon yn amlygu'r effaith sylweddol y gall byw mewn tlodi ei gael ar blant wrth iddynt geisio manteisio ar yr hawliau hyn, o gynnydd unigol, i gael ei gwneud i deimlo'n wahanol ac fel nad ydynt yn gallu cymryd rhan mewn tripiau ysgol a gweithgareddau cyfoethogi. Er bod y ffocws yn ymwneud â phlant o deuluoedd incwm isel, mae mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau plant mewn ysgolion yn darparu sail gwerth unedig a fydd o fudd i bob disgybl.

Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5

Un o fentrau Llywodraeth Cymru
Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Arweinyddiaeth genedlaethol gan Lywodraeth Cymru

Mae addysg yn ganolog i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014 ac mae'r 7 Nod Lles yn y Ddeddf yn ategu hyn. Cyflwynir y rhain drwy'r Cwricwlwm Newydd ar gyfer Cymru.




Mae 'Ffyniant i Bawb'[1], Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru yn amlinellu ymrwymiad i 'gefnogi pobl ifanc i fanteisio i'r eithaf ar eu potensial' trwy addysg ac i wella'r cymorth mewn ysgolion, i wella llesiant plant gyda system 'nad yw'n gadael unrhyw blentyn ar ôl.' Mae hyn yn cefnogi un o amcanion allweddol Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru[2] sef "Lleihau anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r tlotaf."

Mae 'Addysg yng Nghymru - Ein Cenhadaeth Genedlaethol'[31] yn nodi'r 4 amcan allweddol. Un o'r rhain yw "Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a lles." Mae'r Canllawiau hyn yn cefnogi'r ymrwymiad hwn i degwch a llesiant a'u perthynas â rhagoriaeth.

Mae llawer yn cael ei gyflwyno trwy amrywiaeth o raglenni a strategaethau i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant hynny sy'n byw mewn tlodi a'u cyfoedion mwy cefnog. Mae cyfran o ysgolion yng Nghymru wedi ymgysylltu ag asiantaethau statudol a gwirfoddol, i gyflwyno rhaglenni sy'n cefnogi teuluoedd sy'n byw mewn tlodi, o gynnal darpariaeth Dechrau'n Deg, i raglenni rhianta a bod yn rhan o ganolfannau cymunedol.

# Grant Datblygu Disgyblion

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar ffurf y Grant Datblygu Disgyblion, (PDG)[4], a elwid gynt yn Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae'r PDG ar gael i bob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn prydau ysgol am ddim (FSM), y rhai yng ngofal yr awdurdod lleol a dysgwyr cymwys mewn lleoliadau Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS). Y swm ar gyfer y PDG Blynyddoedd Cynnar yw £700 y flwyddyn fesul disgybl ar gyfer plant 3-5 mlwydd oed a £1,150 ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 1-11.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Grant Mynediad PDG yn 2018. Gellir rhoi'r grant hwn tuag at wisg ysgol, gwisg chwaraeon, offer fel bagiau ysgol neu offer ysgrifennu ac offer ar gyfer gweithgareddau penodol, er enghraifft dylunio a thechnoleg neu weithgareddau y tu allan i'r ysgol. Mae'n werth £125.00 ac ar gael i rieni/gofalwyr cymwys i blant sy'n dechrau yn y Dosbarth Derbyn ac ym Mlynyddoedd 3 a 10. Gall rhieni/gofalwyr cymwys i ddisgyblion Blwyddyn 7 gael grant o £200, sy'n adlewyrchu costau ychwanegol symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae'r grant yn gysylltiedig â chymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim, yn seiliedig ar incwm y cartref. Disgwylir i ysgolion sicrhau bod arian yn mynd yn uniongyrchol i'r teuluoedd sydd ei angen fwyaf i helpu gyda rhai o gostau'r diwrnod ysgol. Mae awdurdodau lleol hefyd wedi cael cyllid i ddatblygu atebion hirdymor mwy cynaliadwy, a fydd yn galluogi grwpiau megis clybiau ieuenctid, i wneud cais am siopau cit.

Fe wnaeth Ymchwiliad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) i'r defnydd o PDG[5], argymell bod ysgolion yn sicrhau fod y PDG yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r holl ddisgyblion cymwys, nid disgyblion cyrhaeddiad isel yn unig.




Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

Mae'n hanfodol bod ysgolion yn gwneud y defnydd gorau o gyllid PDG ochr yn ochr ag archwilio ffyrdd eraill lle mae'r holl blant mewn teuluoedd incwm isel a theuluoedd difreintiedig yn cael eu cefnogi'n llawn. Wrth gwrs nid ysgolion yn unig sy'n gyfrifol am liniaru'r effaith mae tlodi yn ei gael ar brofiadau addysg plant. Dyma'r rheswm pam mae'n rhaid annog ysgolion i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, a allai wneud gwahaniaeth gwirioneddol wrth fanteisio i'r eithaf ar adnoddau a chyflwyno atebion cyd-gysylltiedig.

## Effaith ar Blant a Phobl Ifanc

Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan elusen plant[6] y gall tlodi wneud i blant deimlo fel eu bod nhw'n cael eu heithrio, eu stigmateiddio a'u bwlio oherwydd na allant fforddio'r un pethau â'u cyfoedion. Mae plant yn colli allan ar gyfleoedd i fod y gorau y gallant fod yn yr ysgol, gan fod costau'r ysgol o ddydd i ddydd yn aml yn anfforddiadwy.



Mae cyfoeth o waith ymchwil sy'n tystio bod tlodi yn cael effaith enfawr ar ddysg plant ar lefelau cyrhaeddiad yn yr ysgol a lefelau cyrhaeddiad addysgol yn sgil hynny. Mae disgyblion o deuluoedd incwm isel a theuluoedd difreintiedig yn fwy tebygol o'r canlynol:

- Bod ag iechyd corfforol gwaeth
- Profi problemau iechyd meddwl neu emosiynol
- Meddu ar synnwyr isel o les a boddhad bywyd
- Tangyflawni yn yr ysgol
- Meddu ar ragolygon tlotach o ran gwaith
- Profi amddifadedd cymdeithasol
- Teimlo'n anniogel
- Profi stigma a bwlio yn yr ysgol


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

Fe wnaeth ymchwil i brofiadau goddrychol plant o unigrwydd[7] ganfod bod 27% o blant rhwng 10 a 15 mlwydd oed sy'n derbyn prydau ysgol rhad ac am ddim (FSM) wedi adrodd eu bod nhw'n unig yn aml, o'i gymharu â 18% i ddisgyblion nad ydynt yn derbyn prydau ysgol rhad ac am ddim. Datgelodd arolwg a gynhaliwyd gan Plant yng Nghymru[8] yn 2017 ymhlith pobl ifanc bod tlodi yn effeithio'n sylweddol ar eu bywyd yn yr ysgol. Y tri phrif bryder a fynegwyd gan blant a phobl ifanc oedd:


- 'Ddim yn gallu fforddio i wneud gweithgareddau ysgol ar ôl ysgol neu ar benwythnosau'
- 'Ddim yn cael y wisg ysgol neu'r wisg chwaraeon cywir' a
- 'Ddim yn gallu mynd ar dripiau ysgol'

Canfu arolwg mwy diweddar a gynhaliwyd ymhlith athrawon ac arweinwyr ysgolion ar draws y DU[9], fod yr effaith ar ddysg disgyblion yn cynnwys:

Mae plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi neu dan anfantais yn ymwybodol o'r costau sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol eu teulu. Gall hyd yn oed plant ifanc fod yn ymwybodol o gyfyngiadau ariannol fel costau tai, costau cartref a bwyd a gwybod pan fo arian yn brin. Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant[10] bod plant yn llawer mwy ymwybodol o faterion ariannol mewn teuluoedd, fel trethi, banciau bwyd, costau gofal plant a budd-daliadau nag y gallai eraill fod.

Gall plant sy'n byw yn y sefyllfaoedd hyn fod yn destun bwlio ac allgau cymdeithasol oherwydd nad oes ganddynt y wisg ysgol neu'r wisg chwaraeon cywir, am nad ydynt yn gallu cymryd rhan mewn pethau fel 'Dyddiau Hwyl' neu dripiau ysgol, neu fod yn rhaid iddynt fenthyg offer ysgol sylfaenol, fel pinnau ysgrifennu, gan eu hathrawon neu gyfoedion yn gyson.

## Effeithiau ar ddysgu y gellir eu priodoli i dlodi






Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

Gall profiadau dysgwyr o dlodi yn yr ysgol gael eu heffeithio gan bolisïau ysgol, a allai yn anfwriadol stigmateiddio plant o deuluoedd incwm isel neu deuluoedd difreintiedig.  Enghreifftiau o’r polisïau hyn yw gwisg ysgol a dillad, prydau ysgol, ymddygiad, cynhwysiant, iechyd a lles emosiynol, parch ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth, bwlio a diogelu.
Yn aml gall ysgolion wahaniaethu rhwng plant y mae eu rhieni’n ei chael hi’n anodd yn ariannol a’r rhai hynny y mae eu rhieni/gofalwyr yn gwneud yr hyn a ystyrir yn ddewisiadau ariannol neu ddewisiadau bywyd gwael. Gall hyn arwain at staff yn teimlo’n rhwystredig oherwydd beth bynnag fo’r camau maen nhw’n eu cymryd yn yr ysgol i helpu, ni allant newid y sefyllfa yn y cartref yn sylweddol.  Fodd bynnag, mae llawer iawn y gall ysgolion ei wneud i liniaru effaith tlodi a gwella lles a phrofiad plant mewn ysgolion.

## Tlodi ac Anfantais: Effaith ar Blant a Phobl Ifanc

Mae tlodi yn gysylltiedig yn bennaf ag incwm isel ac mae’r Canllawiau hyn yn canolbwyntio ar ddisgyblion sy’n byw mewn aelwydydd incwm isel neu aelwydydd difreintiedig, lle mae anfantais yn cynnwys y dysgwyr hynny sy’n dioddef heriau a rhwystrau ychwanegol a all gynnwys byw mewn cartref lle mae gan rywun anabledd corfforol neu anabledd dysgu, bod o gefndir BAME neu gefndir mudol, neu’n byw mewn amodau gwael yn y cartref. Gall anfantais hefyd gynnwys diffyg cyfleoedd cymdeithasol, profi ansicrwydd bwyd neu ansicrwydd tanwydd a bod ag ansawdd bywyd gwael yn gyffredinol. Bydd diffyg cyfalaf economaidd, diwylliannol a chymdeithasol i gyd yn effeithio ar addysg, cyfleoedd bywyd a chanlyniadau plant.

Mae’r profiad o dlodi i rai pobl ifanc yn cael ei ddangos yn glir yn y tabl canlynol. Cynhaliodd grŵp o bobl ifanc o Fforwm Ieuenctid Caerffili weithdy ar y profiadau o dlodi mewn ysgolion a sefydlu’r gymhariaeth ganlynol ar y diwrnod ysgol rhwng disgyblion o deuluoedd incwm isel a’r rhai o gefndiroedd mwy cefnog.

Bob dydd yn yr ysgol, mae plant o deuluoedd incwm isel a theuluoedd difreintiedig yn wynebu heriau ymarferol y mae’n rhaid iddyn nhw eu goresgyn neu eu trafod.   Mae’r rhain yn cynnwys:

- Cael y dillad cywir ar gyfer yr ysgol
- Teithio i’r ysgol a chostau trafnidiaeth
- Cael yr adnoddau a’r offer cywir ar gyfer gwersi
- Stigma ac unigedd
- Fforddio tripiau ysgol
- Bwyd a’r gallu i dalu amdano
- Gweithgareddau allgyrsiol
- Dysgu yn y cartref



Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5

Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

# Fy Niwrnod Ysgol - Safbwyntiau **Cefnog** a **Thlodi**

Yn fwy diweddar, bu gweithgarwch cynyddol mewn perthynas â gofyn i blant yn sensitif i rannu eu profiadau a'u barn am dlodi plant, gan gynnwys ansicrwydd bwyd.  Mae enghreifftiau da o hyn o bob cwr o'r DU[11] a'r Alban[12]. Mae'r gwaith hwn wedi amlygu sut mae plant yn fwy nag abl i lunio dulliau ymarferol newydd ac fe wnaeth awgrymu'r ffyrdd gorau o'u cefnogi.  Mae enghreifftiau cynyddol o blant yn ymarfer eu hawl i roi eu barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw ac i'r safbwyntiau hyn gael eu hystyried. Trwy gynghorau ysgol a threfniadau cyfranogol eraill, bydd ysgolion a'u disgyblion yn elwa o glywed safbwyntiau a syniadau plant, a bydd nifer ohonynt yn cael eu heffeithio'n negyddol gan dlodi.

| Amser | Cefnog | Thlodi |
|---|---|---|
| 7:00 | Mynd i lawr grisiau - brecwast ar y bwrdd. | Dim bwyd yn y cypyrddau. |
| 7:30 | Gwisg wedi'i smwddio ac yn barod, tynnu'r dillad allan o'r cwpwrdd dillad. | Codi gwisg ddoe oddi ar y llawr. |
| 7:45 | Rhiant yn gyrru'r plentyn i'r ysgol. | Methu'r bws oherwydd ei fod yn helpu gyda'i chwaer fach, cerdded i'r ysgol yn y glaw. |
| 8:00 | Cyrraedd yr ysgol, rhoi caniatâd ar gyfer trip ysgol sydd ar y gweill. | Gwlyb ac oer gan ei bod hi'n bwrw glaw, yn gwneud esgus dros beidio â chael slip caniatâd. |
| 8:30 | Rhoi gwaith cartref i mewn. | Dim rhyngrwyd i chwilio yn y cartref. |
| 9:00 | Gwers AG - dangos esgidiau ymarfer corff newydd i ffrindiau. | Yn destun hwyl am fenthyg esgidiau ymarfer corff sbâr yr ysgol. |
| 10:00 | Amser egwyl - prynu bwyd, treulio amser gyda'u ffrindiau yn y ffreutur yn ystod amser egwyl. | Osgoi'r ffreutur, yn llwglyd (unigedd). |
| 11:00 | Rhoi prosiect i mewn a wnaed gyda chymorth gan rieni, yn ennill y gystadleuaeth llosgfynydd gorau. | Llosgfynydd wedi'i wneud allan o bapur toiled, athrawon yn beirniadu am ddiffyg ymdrech a chyd-ddisgyblion yn chwerthin |
| 12:00 | Amser cinio - ffansïo cacen a ffrwythau a methu penderfynu pa un felly prynu'r ddau. | Cywilydd o'r tocyn cinio am ddim. |
| 16:00 | Amser mynd adref, cael ei gasglu gan ei rieni ar ôl gweithgaredd allgyrsiol. | Cael ei ddal yn ôl am beidio gwneud gwaith cartref, gorfod cerdded adref. |




Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES



## Nifer yr achosion o dlodi plant yng Nghymru

Y dangosydd allweddol o dlodi plant yw'r canran o blant sy'n byw mewn cartrefi o dan 60% o incwm canolrifol cartrefi'r DU (Ar ôl Costau Tai). Mae incwm o bwys gan ei fod yn adnodd allweddol sy'n galluogi aelwydydd i ddiwallu eu hanghenion bob dydd. Mae'r ystadegau diweddaraf (2018) yn dangos bod 29% o blant yng Nghymru yn byw mewn cartrefi â thlodi cymharol ac mae 26% o'r rhai hynny yn byw mewn Cartrefi Incwm Isel Absoliwt, lle mae eu hincwm yn is na lefel angenrheidiol i gynnal safonau byw sylfaenol (bwyd, lloches, tai). Mae rhagolygon annibynnol yn awgrymu bod y nifer hwn yn debygol o dyfu dros y blynyddoedd nesaf.

Mae lefelau tlodi plant mewn rhannau o Gymru yn rhai o'r uchaf yn y DU ac mae ei effaith ar gyrhaeddiad addysgol plant wedi cael ei gofnodi'n dda. Yn y Cyfnod Sylfaen, y bwlch cyrhaeddiad rhwng plant sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl i brydau ysgol am ddim oedd 14.3% yn 2016, ac mae wedi bod yn gostwng yn sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r bwlch yn ehangu yn sylweddol pan fo plant yn cyrraedd Cyfnod Allweddol 4 ac yn 2016 roedd yn sefyll ar 32%, ffigwr sydd wedi aros yn gymharol gyson yn ystod yr un cyfnod. Canfu data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fod disgyblion yn 2018 a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim rhwng dwy a hanner a phedair gwaith yn fwy tebygol o gyflawni sgôr wedi'i safoni yn ôl oedran o 115 ym mhob un o'r profion cenedlaethol a gynhaliwyd gan ysgolion[13]

Bu ffocws cynyddol ar dlodi yng Nghymru ar lefel traws-lywodraeth ac o fewn addysg, sydd wedi cynyddu ein dealltwriaeth o gymhlethdod tlodi yng Nghymru a'i effaith ar ddisgyblion ar draws lleoliadau daearyddol gwahanol. Mewn arolwg o athrawon a gynhaliwyd gan yr Undeb Addysg Cenedlaethol mewn ysgolion ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, roedd 60% o'r ymatebwyr o'r farn bod maint y tlodi yn eu hysgolion a'i effaith ar ddisgyblion incwm isel wedi gwaethygu ers 2015.

Nid oes cyswllt achosol rhwng tlodi, cam-drin plant ac esgeuluso.[14] Fodd bynnag, os yw staff yr ysgol yn poeni bod plentyn yn cael ei esgeuluso, dylent siarad â swyddog diogelu dynodedig yr ysgol.


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

## Sbardunau Tlodi

Mae sbardunau tlodi yng Nghymru yn cynnwys amrywiaeth eang o ffactorau strwythurol, cartref a ffactorau ar lefel unigol, sy'n cynnwys -

- Lefelau o ddiweithdra
- Effaith newidiadau diwygio lles
- Cyflogaeth ansicr
- Cyflogau isel
- Amodau economaidd gwael
- Costau byw cynyddol
- Addysg a sgiliau gwael
- Cymhwyster rhieni
- Sefydlogrwydd teulu
- Fforddiadwyedd ac amodau tai
- Iechyd gwael

Mae tlodi yn gymhleth, nid mater o incwm isel yn unig ac mae hyn yn fwy felly yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'n broblem strwythurol gyda diffyg incwm wrth ei graidd. Mae'n ddeinamig gan nad yw'r bobl hynny sy'n byw mewn tlodi eleni o reidrwydd yr un grŵp o bobl a fydd yn byw mewn tlodi'r flwyddyn nesaf. Y plant sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan dlodi yw'r rhai hynny sy'n byw mewn rhai teulu o leiafrifoedd ethnig; mewn teuluoedd gyda rhiant neu blentyn anabl; mewn cartref un rhiant; mewn teulu gyda thri neu fwy o blant yn byw mewn llety rhent cymdeithasol neu lety heb ddiogelwch.

Un o'r mythau oesol yw mai gwaith yn awtomatig yw'r ffordd orau allan o dlodi, ond yn anffodus nid yw'n wir yn yr hinsawdd economaidd bresennol yng Nghymru. Mae dadansoddiad gan Felin Drafod yn y DU wedi amlygu[15] fod 57% o'r bobl sydd mewn tlodi yn y DU yn blant neu'n oedolion oedran gweithio sy'n byw mewn cartref lle mae rhywun mewn gwaith cyflogedig, i fyny o 35% yn 1994-95. Maen nhw'n rhagweld cynnydd o fwy na 50% yn y gyfran o blant sy'n byw mewn tlodi yn y DU erbyn 2020/21.

Mae nifer cynyddol o blant mewn tlodi o deuluoedd sy'n gweithio lle mae un neu'r ddau riant/gofalwyr mewn gwaith cyflog isel ac yn aml yn disgyn ychydig y tu allan i'r trothwy i'w plant fod yn gymwys i gael cymorth ariannol ychwanegol i helpu gyda chost yr ysgol, fel hawl i brydau ysgol am ddim, ac felly yn disgyn rhwng craciau'r union systemau a ddylai fod ar waith i'w cefnogi.




Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

## Tlodi a Hawliau Plant

Mae'r CCUHP yn seiliedig ar dair egwyddor - cyfranogiad, diogelu a darpariaeth. Gall dysgwyr o deulu incwm isel neu deulu difreintiedig wynebu rhwystrau ychwanegol wrth geisio defnyddio'u hawliau ac efallai na fyddant yn gallu cymryd rhan lawr ym mywyd yr ysgol. Dylai hawliau plant fod wrth wraidd cynllunio a chyflwyno ysgol gyfan. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi cyhoeddi 'Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru'.[16] Mae'r Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn fframwaith egwyddorol ac ymarferol ar gyfer gweithio gyda'r holl blant, wedi'i seilio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Egwyddorion Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yw:

- Ymgorffori hawliau plant
- Cydraddoldeb a Pheidio â gwahaniaethu
- Grymuso plant
- Cyfranogiad
- Atebolrwydd

Mae'r fframwaith a'r ddogfen wedi cael ei chynllunio ar gyfer ysgolion yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar bob egwyddor yn unigol ac yn rhoi cyngor ymarferol ar sut y gellir ei roi ar waith.

Mae menter UNICEF, Ysgolion sy'n Parchu Hawliau[17] yn gweithredu system gwobrwyo ac yn darparu adnoddau a hyfforddiant i staff ysgolion ar hawliau plant. Mae'r cynllun yn cael ei gyflwyno ar draws Cymru, ond 26% yn unig o ysgolion yng Nghymru sydd wedi cofrestru ar y cynllun, 420 o gyfanswm o 1,617 o ysgolion.




Cyflwyniad 0

Deall Tlodi 1

Gwisg Ysgol a Dillad 2

Bwyd a Newyn 3

Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4

Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5


Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative

ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission

PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

## Tlodi ac Iechyd

Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant [18]fod tlodi yn fater difrifol i iechyd plant. Adroddodd mwy na dwy ran o dair o feddygon bod afiechyd mewn plant yn cael ei briodoli'n 'fawr iawn' i dlodi. Nododd yr adroddiad fod straen teuluol, ansicrwydd bwyd a materion yn ymwneud ag amodau tai gwael neu ddigartrefedd i gyd yn effeithio'n negyddol ar iechyd plant.

Mae'r anallu i fforddio bwyd iach yn aml yn arwain at blant yn dod yn rhy drwm neu'n ordew, gyda diffyg mannau agored mewn ardaloedd tlotach, i blant chwarae a gwneud ymarfer corff. Bydd tai oer, llaith neu orlawn yn gwneud afiechydon fel asthma neu heintiau ar y frest yn llawer mwy cyffredin ac yn gwneud salwch parhaus yn llawer anoddach i'w reoli. Caiff y sefyllfa ei gwaethygu ar gyfer teuluoedd sydd â phlentyn anabl.

## Tlodi Mislif

Yn ôl ymchwil mae merched sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel neu deuluoedd difreintiedig mewn perygl o fethu diwrnodau o addysg, stigma a bychanu yn ystod eu mislif.[19] Mae Grant Urddas yn Ystod Mislif Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion yn rhoi arian i awdurdodau lleol i brynu cynnyrch mislif i'w rhoi ym mhob ysgol yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion cynradd. Gellir defnyddio'r arian i brynu cynnyrch misglwyf, dillad isaf, dosbarthwr a biniau. Gall ysgolion sicrhau eu bod yn diwallu anghenion eu dysgwyr benywaidd drwy gynnal arolwg o'r hyn a fyddai'n gweithio orau yn yr ysgolion, fel bod merched yn teimlo'n gyfforddus o ran lle mae dosbarthwyr a biniau yn cael eu rhoi. Gellir mynd i'r afael â'r wybodaeth anghywir a'r stigma ynghylch mislif yn yr ystafell ddosbarth gyda disgyblion benywaidd a gwrywaidd, ac mae nifer o ysgolion yn defnyddio'r dull hwn eisoes.

Mae Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACE) yn ddigwyddiadau llawn straen sy'n digwydd yn ystod plentyndod a allai gael effaith gydol oes ar iechyd ac ymddygiad. Mae nifer o Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod y gallai plant eu profi ac maen nhw'n cynnwys:

- trais yn y cartref
- rhiant yn gadael trwy wahanu neu ysgaru
- rhiant gyda chyflwr iechyd meddwl
- dioddef camdriniaeth (corfforol, rhywiol a/neu emosiynol)
- dioddef esgeulustod (corfforol ac emosiynol)
- aelod o'r teulu yn y carchar
- tyfu i fyny mewn cartref lle mae oedolion sy'n profi problem defnyddio alcohol a chyffuriau

Mae'r rhai sydd wedi profi 4 neu fwy o'r rhain yn debygol o brofi iechyd corfforol a meddwl gwaeth a chanlyniadau bywyd gwaelach. Maen nhw'n fwy tebygol o ddatblygu defnydd problematig o gyffuriau, problemau iechyd meddwl, clefyd y galon neu glefyd cylchredol a defnyddio alcohol yn drwm.

Mae ymchwil wedi dangos y gall cael perthynas gydag un oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn ystod plentyndod liniaru effeithiau negyddol ACE. Nid yw tlodi yn cael ei achosi gan ACE, ac nid yw profi ACE ychwaith yn arwain at dlodi; mae ACE yn digwydd ar draws rhaniadau cymdeithasol. Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o deuluoedd gydag ACE lluosog sy'n profi tlodi. A phan fydd tlodi ac ACE yn cyd-daro maen nhw'n cyfuno. Pan fydd plentyn yn byw gydag ACE, a hefyd yn byw mewn tlodi, gall arwain at effeithiau gydol oes, sy'n ddinistriol i blant yn ystod eu plentyndod, ac sy'n parhau wrth iddynt ddatblygu'n oedolion.

Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5

Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

# Beth All Ysgolion Ei Wneud

## Defnyddio Dull Ysgol Gyfan ar gyfer mynd i'r afael â Phris Tlodi

Mae ysgolion yn wynebu llawer o heriau gyda chostau uwch yn rhoi pwysau ar eu cyllidebau, ond er gwaethaf hyn, mae llawer o ysgolion yn gwneud cymaint ag y gallant i liniaru effaith tlodi ar blant o deuluoedd incwm isel neu deuluoedd difreintiedig.

Mae'n bwysig fod pawb o fewn amgylchedd yr ysgol; rheolwyr, athrawon a staff cynorthwyol yn ymrwymo i hyrwyddo tegwch i bob dysgwr ac i helpu i liniaru effaith tlodi ar y diwrnod ysgol. Mae dull ysgol gyfan yn cynnwys pob rhan o'r ysgol yn gweithio gyda'i gilydd ac yn cymryd rhan lawn ac ymrwymo i wneud newidiadau cadarnhaol. Mae'n gofyn am weithio mewn partneriaeth rhwng y llywodraethwyr, uwch arweinwyr, athrawon a holl staff yr ysgol, yn ogystal â rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach.

Mae tystiolaeth gynnar o raglenni a'r camau a gymerwyd gan ysgolion i fynd i'r afael â'r rhwystrau mae plant o gefndiroedd incwm isel yn eu hwynebu yn dangos rhywfaint o lwyddiant mewn rhannau o Gymru a rhannau eraill o'r DU. Er enghraifft, fe wnaeth ysgolion sydd wedi rhoi rhaglen prawf-fesur tlodi ddarganfod gwelliannau yng nghynnydd disgyblion, ymddygiad, presenoldeb a'r nifer sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim a lles disgyblion.

Mae nifer o'r materion ac argymhellion yn y Canllaw hwn a'r Canllawiau eraill yn y gyfres hon, yn adlewyrchu'r rhai hynny sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad Estyn ar yr effaith mae'r ysgol yn ei gael ar iechyd a lles dysgwyr a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019.[20]

## Dyma rai o'r camau y gallai ysgolion eu cymryd:

- Penodi Hyrwyddwr Tegwch o blith staff yr ysgol, sy'n gallu:
  - Nodi pa ddisgyblion sy'n dod o deuluoedd incwm isel neu deuluoedd difreintiedig
  - Monitro ac olrhain pa ddisgyblion sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim, neu nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim, a phwy ddylai fod yn derbyn y rhain
  - Ymgysylltu â rhieni/gofalwyr mewn ffordd gadarnhaol a sensitif, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw fudd-daliadau neu grantiau y gallent fod â hawl iddyn nhw, a'u bod yn gallu gwneud cais am y rhain.
  - Annog rhieni/gofalwyr i ddweud eu dweud yn addysg eu plentyn drwy ymuno â'r Cyngor Rhieni neu'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.
  - Meddu ar restr o sefydliadau/cysylltiadau lle gall rhieni/gofalwyr gael cymorth ychwanegol ar gyfer problemau penodol, e.e. cyngor ar ddyled neu fanciau bwyd.
  - Datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad yn yr ysgol a cheisio lleihau'r holl gostau ar gyfer teuluoedd
- Penodi Llysgennad Tegwch o blith dysgwyr yn yr ysgol, y gellir eu cefnogi gan staff yr ysgol i ddatblygu rôl sydd o fudd i bob dysgwr ac yn hysbysu'r staff o'r rhwystrau y dylid rhoi sylw iddynt. Yn ddelfrydol, dylai hyn fod yn ddysgwr sydd â phrofiad personol o sut beth yw byw mewn teulu incwm isel.
- Defnyddio Dull Ysgol Gyfan drwy godi ymwybyddiaeth ymhlith holl staff yr ysgol o arwyddion tlodi a bod yn sylwgar, i nodi pa blant sy'n dangos arwyddion o gael eu heffeithio gan eu sefyllfa.


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

- Nodi pa bolisïau ac arferion sy'n stigmateiddio neu'n effeithio ar blant o deuluoedd sy'n byw mewn tlodi yn anfwriadol a nodi lle gellir gwneud newidiadau.
- Cynnwys plant a phobl ifanc i ddarganfod pa rwystrau a heriau y gellir eu hwynebu wrth lywio'r diwrnod ysgol, i rywun o deulu incwm isel.
- Rhoi newidiadau cost isel neu newidiadau dim cost ar waith sy'n gwneud gwahaniaeth.
- Ystyried y dystiolaeth gynnar o fentrau mewn rhannau eraill o'r DU, sy'n dangos y gellir gwella lefelau cyrhaeddiad a phresenoldeb drwy wahanol fesurau.
- Cynyddu ymgysylltiad ac ymrwymiad gan amrywiaeth o randdeiliaid ar lefel rhanbarthol, awdurdod lleol a lefel cymunedol.

Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi cynhyrchu Adnodd 'Gwirio gyda Ceri'[21] a allai helpu ysgolion i symud ymlaen gyda rhai o'r camau a restrir uchod. Mae'r adnodd rhad ac am ddim yn helpu ysgolion i weithio gyda phlant, pobl ifanc a staff ysgolion i feddwl am; gostau'r diwrnod ysgol, sut y gallent effeithio ar deuluoedd sy'n byw mewn tlodi, yr hyn sy'n gweithio'n dda a sut i wneud cynllun ar gyfer yr hyn y gellid ei wella.

1 'Ffyniant i Bawb - Y Strategaeth Genedlaethol' - Llywodraeth Cymru, 2017
2 Strategaeth Tlodi Plant Cymru, Llywodraeth Cymru 2015
3 Addysg yng Nghymru - Ein Cenhadaeth Genedlaethol, Llywodraeth Cymru, 2017
4 Camau Nesaf ar gyfer y PDG, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018
5 '*On the Money – Cyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol'*, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg CCC, 2018
6 Ar ba gost? Datgelu effaith tlodi ar fywyd yn yr ysgol, Cymdeithas Plant, 2015
7 Unigrwydd mewn Plentyndod, Cymdeithas y Plant, 2019
8 Adroddiad Arolwg Tlodi Teuluoedd a Phlant 2018, Plant yng Nghymru, 2018
9 Cyflwr Addysg – Tlodi Plant, Yr Undeb Addysg Cenedlaethol, Ebrill 2019
10 Cost y Diwrnod Ysgol, Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (2015)
11 Ymchwiliad i Fwyd Plant yn y Dyfodol, Sefydliad Food, 2019
12 Cost y Diwrnod Ysgol Adroddiad Dundee, Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant 2018
13 Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol a hawl i gael prydau ysgol am ddim: 2018
14 Y Berthynas rhwng tlodi, cam-drin plant ac esgeuluso: adolygiad tystiolaeth, Sefydliad Joseph Rowntreee, 2016
15 Safonau Byw, tlodi ac anghydraddoldeb yn y DU 2018, Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 2018
16 Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru, Comisiynydd Plant Cymru
17 Ysgolion sy'n Parchu Hawliau - Unicef
18 Tlodi ac Iechyd Plant - Safbwyntiau o'r rheng flaen, CPAG a RCPCH, 2017
19 Ymchwil ar dlodi mislif a stigma, Plan International, 2017
20 Hapus ac iach - effaith ysgolion ar iechyd a lles disgyblion, Estyn 2019
21 Comisiynydd Plant Cymru - Adnoddau 2019



Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES



# 2 Gwisg Ysgol a Dillad - "Nid yw'n ymwneud â dysgu'n unig"

Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5

Un o fentrau Llywodraeth Cymru
Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

# Cyflwyniad

## Gwisg Ysgol a Dillad - “Nid yw’n ymwneud â dysgu’n unig”

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau Statudol newydd ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion ar bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion sy’n ymdrin â materion fforddiadwyedd ac argaeledd eitemau gwisg ysgol.[1] Er nad oes deddfwriaeth yng Nghymru sy’n ymwneud yn benodol â gwisgo gwisg ysgol, mae disgwyliadau clir ar bob ysgol bod polisi gwisg ysgol ar waith sy’n ystyried hawliau, anghenion a phryderon plant o gefndiroedd incwm isel a chefndiroedd difreintiedig, nad yw’n gwahaniaethu ar unrhyw sail. Rhaid i ysgolion roi sylw i’r canllawiau statudol wrth ddatblygu, gweithredu neu newid polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion, a dylent ystyried materion cydraddoldeb ac ymgynghori’n eang â phlant, rhieni ac eraill.

# Y Broblem

## Fforddiadwyedd

Mae plant a phobl ifanc sy’n byw mewn teuluoedd incwm isel yn wynebu rhwystrau sylweddol rhag dysgu pan nad yw eu teuluoedd yn gallu fforddio costau gwisg ysgol. Er bod gwisg ysgol yn cynnig llawer o bethau cadarnhaol, gan gynnwys helpu i leihau gwahaniaethau gweladwy a meithrin ymdeimlad o hunaniaeth, balchder a pherthyn ymysg dysgwyr, mae’n dal yn cyflwyno cost sylweddol i deuluoedd, yn enwedig lle mae dau neu fwy o blant yn yr un ysgol, neu mewn ysgolion gwahanol.

Mae gwisg ysgol yn ddangosydd gweledol o dlodi incwm a gall diffyg eitemau cywir arwain at ganlyniadau niweidiol ar gyfer y disgyblion, yn enwedig mewn ysgolion sydd â pholisi gorfodi llym. Gall adnewyddu eitemau sydd wedi gwisgo neu mae disgyblion wedi tyfu allan ohonyn nhw yn annisgwyl yn ystod y flwyddyn ysgol fod yn anodd os nad oes gan rieni fynediad at ddigon o arian. Gall diffyg nifer o eitemau o wisg ysgol hefyd fod yn heriol. Efallai y bydd plentyn yn cyrraedd yr ysgol heb y wisg gywir am mai dim ond un siwmper/trowsus/siaced sydd ganddynt ac os yw’r rhain yn cael eu golchi neu wedi eu difrodi, efallai nad oes eitemau dros ben iddynt eu gwisgo.

Canfu arolwg o athrawon gan Undeb Cenedlaethol Addysg yn 2019 bod cynnydd sylweddol yng ngwelededd tlodi plant yn eu hysgol/coleg.




Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a’r Ysgol 5

Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative

ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission

PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

Cost gyfartalog gwisg ysgol gynradd yng Nghymru yw tua **£110** a **£150** ar gyfer ysgolion uwchradd (gan gynnwys cit chwaraeon). Fe wnaeth ymchwil a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru ddod o hyd i'r enghreifftiau canlynol o gostau gwisg ysgol yng Nghymru[2]:

| Eitem Gwisg | Enghreifftiau o gost siop yr ysgol | Enghreifftiau o gost archfarchnad |
|---|---|---|
| Crysau x 5 | £40.00 | £7.50 |
| Siwmperi x 2 | £25.00 | £12.00 |
| Trowsus x 2 | £35.50 | £10.00 |
| Tei | £4.00 | £4.00 |
| Sanau Cit AG | £5.75 | £5.75 |
| Top awyr agored Cit AG | £17.00 | £4.00 (pecyn o 2) |
| Siorts Cit AG | £10.00 | £6.00 |
| Crys Polo Cit AG | £12.75 | £3.50 (pecyn o 2) |
| **Cyfanswm:** | **£150.00** | **£52.75** |

O siarad â disgyblion a rhieni, canfu Swyddfa'r Comisiynydd fod cost gwisgoedd ysgol yn bryder cyson a godwyd, yn enwedig lle mae ar ysgolion angen eitemau o ddillad gorfodol drud fel eitemau â logo arnynt, na ellir eu prynu ond drwy'r ysgol neu mewn siop wisg ysgol arbenigol. Ar gyfer teuluoedd incwm-isel lle mae 2 neu fwy o blant mewn teulu, gall y costau hyn fod yn arbennig o heriol.

Canfu arolwg o athrawon[3] yn 2016, fod **57%** o athrawon wedi gweld disgyblion nad oeddent yn gallu fforddio gwisg ysgol, mae **84%** wedi gweld disgyblion oedd â dillad a oedd wedi'u difrodi neu wedi breuo ac roedd **59%** wedi gweld gwisgoedd yn cael eu rhoi neu eu benthyg gan yr ysgol. Mewn arolwg mwy diweddar yn y DU ar ddechrau 2019[4], roedd **71%** o arweinwyr ysgolion a ymatebodd yn credu y bu cynnydd yn nifer y disgyblion a oedd yn cael eu heffeithio gan dlodi a bod cynnydd yn y lefelau o anfantais a welwyd, yn enwedig dros y blynyddoedd diwethaf. O'r rhai a holwyd, dywedodd **91%** o ysgolion eu bod wedi darparu eitemau o ddillad i ddisgyblion a dywedodd **47%** bod yr ysgol wedi golchi eitemau o ddillad ar gyfer plant.

Mae llawer o ysgolion yn gwneud pob ymdrech i helpu plant na all eu teuluoedd fforddio prynu neu amnewid gwisg ysgol. Gall y rhain amrywio o athrawon yn rhoi dillad mae eu plant eu hunain wedi tyfu allan ohonynt, neu'n cadw gwisg sbâr a chit chwaraeon y gall dysgwyr eu benthyg, i drefnu cyfnewidiadau gwisgoedd, gwerthiannau neu siopau gwisg ysgol diwedd tymor. Yn ogystal â lleihau'r costau i rieni, gall cynlluniau o'r fath hefyd gyfrannu'n gadarnhaol at yr agenda amgylcheddol ehangach, drwy helpu i osgoi gwastraff dillad, hyrwyddo'r cysyniad o ailgylchu ac annog ailddefnyddio eitemau a allai gael eu gwaredu fel arall. Dylai unrhyw gamau a gymerir gan ysgolion i helpu dysgwyr i gael gafael ar wisg ysgol gael eu gwneud bob amser mewn ffordd sensitif, heb stigma ac yn urddasol. Dylai citiau Addysg

Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5

Un o fentrau Llywodraeth Cymru
Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

Gorfforol sbâr fod mewn cyflwr trwsiadus, cael eu golchi ar ôl pob defnydd a'u hongian i fyny. Nid oes yr un plentyn eisiau rhoi dillad sydd wedi bod yng nghefn y cwpwrdd AG ac sy'n dod allan wedi crychu ac arogli'n ddrewllyd ymlaen.

## Mynediad-PDG

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid drwy Gronfa Mynediad - Grant Datblygu Disgyblion i rieni disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim sy'n dechrau yn y dosbarth Derbyn ac ym Mlynyddoedd 3, 7 a 10. Trwy'r cynllun hwn, mae £125 ar gael i blant sy'n dechrau'r dosbarth Derbyn, Blwyddyn 3 a 10, gyda £75 ychwanegol ar gael ar gyfer disgyblion sy'n dechrau Blwyddyn 7, er mwyn cyfrif am y costau cynyddol o symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Mae'r grant ar gael i'r holl deuluoedd y mae eu plant yn derbyn prydau ysgol am ddim ac i'r holl Blant sy'n Derbyn Gofal. Yn ogystal â gwisg ysgol, gellir defnyddio'r grant ar gyfer dillad chwaraeon, offer fel bagiau ysgol neu ddeunydd ysgrifennu, ac offer ar gyfer gweithgareddau penodol, e.e. dylunio a thechnoleg. Gellir hefyd ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r ysgol. Mae awdurdodau lleol hefyd yn gallu rhoi grantiau i grwpiau ieuenctid neu gymunedol a all wneud cais am 'siop cit', ar gyfer dillad ac offer chwaraeon.

Mae'n bosibl yr effeithir yn arbennig ar blant y mae eu rhieni'n gweithio mewn swyddi cyflog isel ac sy'n syrthio'n brin o'r meini prawf cymhwyster prydau ysgol am ddim, yn ogystal â rhieni â phlant yn y blynyddoedd ysgol y tu allan i'r meini prawf Mynediad - PDG. Felly dylai pob ysgol sicrhau, wrth osod neu adolygu eu polisi gwisg ysgol, eu bod yn ystyried y rhwystrau fforddiadwyedd y gall pob plentyn eu hwynebu a sicrhau bod eu polisi'n gwbl gynhwysol.

## Yr Effaith ar Blant a Phobl Ifanc

Ar gyfer plant sy'n byw mewn teuluoedd sy'n cael trafferth i fforddio gwisg ysgol, gall yr ysgol fod yn ffynhonnell o bryder a phoeni. Gallai dysgwyr deimlo embaras a phoeni am gael eu gwawdio neu eu bwlio a'u pitïo gan eu cyfoedion neu staff yr ysgol. Efallai eu bod nhw'n poeni am gael eu gyrru gartref i newid, gan wybod nad oes ganddynt unrhyw beth gartref i newid iddo. Gallai'r rhain fod yn ganlyniadau anfwriadol polisi gwisg ysgol llym.

> *"Roedd rhaid i mi roi cot gaeaf i un ferch; roedd hi wedi bod yn dioddef gyda broncitis a heintiau ar y frest drosodd a throsodd y gaeaf diwethaf. Nid oeddwn yn sylweddoli nad oedd ganddi unrhyw gôt gaeaf hyd nes i mi ei gweld hi'n chwarae y tu allan." (NASUWT)*

> *"Os nad oes gennych chi siwmper ymlaen, mae'n rhaid i chi wneud y daith o gywilydd i eistedd yn y tu blaen."*

> *"Rwy'n un o 5, byddai'n costio £1000 y flwyddyn i fy Mam brynu gwisgoedd ysgol i ni...Yn ein hysgol ni mae'n rhaid i ni gael trowsus gyda logo'r ysgol arnynt sy'n costio £60, felly byddai mam yn prynu yn Tesco ac yn gwnïo'r bathodyn arno a byddem yn cael ein hanfon adref am hynny."*

Bydd defnyddio dull ysgol gyfan a chymhwyso ymateb cyson ar draws yr ysgol i dorri polisi gwisg ysgol a sut y maen nhw'n cael eu trin, yn lleihau ofn a straen ymhlith myfyrwyr nad ydynt yn gallu cadw at y polisi gwisg ysgol, o ganlyniad i ddiffyg incwm y cartref.



Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

# Beth All Ysgolion Ei Wneud

Mae llawer y gall ysgolion ei wneud i helpu i godi'r rhwystrau i blant o deuluoedd incwm isel neu deuluoedd difreintiedig o ran cost gwisg ysgol a dillad chwaraeon. Mae rhai ysgolion yn helpu drwy brynu peiriannau golchi i olchi gwisgoedd ysgol, rhoi cymhorthdal ar gyfer eitemau o ddillad, neu gynnig benthyciad neu gynlluniau ailgylchu ar gyfer gwisg ysgol mewn ysgolion.

Er enghraifft, recriwtio 'Hyrwyddwr Tegwch' o blith staff yr ysgol sydd â'r rôl o nodi, monitro a chefnogi dysgwyr o deuluoedd incwm isel neu deuluoedd difreintiedig, ac ymgysylltu â'u rhieni/gofalwyr mewn modd cadarnhaol a sensitif.

Dylai llywodraethwyr ysgolion fod yn ymwybodol o, a sicrhau bod ysgolion yn cadw at Ganllawiau Statudol newydd Llywodraeth Cymru ar Wisg Ysgol[1] a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019 ac sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- sicrhau bod sylw priodol yn cael ei roi i sicrhau bod disgyblion o wahanol ryw a rhywedd; disgyblion o wahanol gefndiroedd ethnig a chrefyddol a; disgyblion anabl yn cael eu trin yn gyfartal mewn perthynas â pholisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion;
- cost a fforddiadwyedd;
- ystyriaethau ymarferol wrth gyflwyno neu newid polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion;
- ymgynghori â rhieni, disgyblion a'r gymuned.

Mae newidiadau i'r Canllawiau blaenorol wedi cael eu cyflwyno;

- Dylai cyrff llywodraethu ysgolion ystyried fforddiadwyedd, mynediad ac argaeledd eitemau gwisg wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad.
- Ni ddylai polisïau gwisg ysgolion bennu gwahanol eitemau o ddillad ar sail rhyw/rhywedd.
- Dylai cyrff llywodraethu ysgolion fod â dull synhwyrol, hyblyg mewn perthynas ag eitemau gwisg ysgol i gyfrif am amodau tywydd eithafol.

Dylai llywodraethwyr ysgol ystyried y canlynol:

- P'un a yw'n hanfodol cael logo'r ysgol ar eitemau o wisg ysgol a p'un a yw lliwiau'r wisg ysgol yn ddigonol i nodi'r ysgol a chreu synnwyr o gymuned.
- Faint o hyblygrwydd sydd mewn cadw at y wisg a sut mae achosion o dorri'r polisi gwisg ysgol yn cael eu trin gan staff.




Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5


Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative

ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission

PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

## Camau Gweithredu:

Sicrhau bod rhieni cymwys i blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r Mynediad-PDG. Dylai ysgolion ymgysylltu â rhieni a sicrhau bod y grant yn hysbys yn eang trwy wefan yr ysgol neu dudalennau Facebook, cylchlythyrau, prosbectws yr ysgol a chyfryngau eraill. Gweithredu cynlluniau ailgylchu neu wisg wedi'i garu gan rywun arall eisoes lle mae cyn-ddisgyblion a disgyblion presennol wedi tyfu allan o eitemau o ddillad sydd dal mewn cyflwr da ac y gellir eu rhoi i'w defnyddio gan ddisgyblion eraill neu eu prynu am bris bychan. Sicrhau bod cynlluniau o'r fath yn cael eu rhoi ar waith mewn modd sensitif a heb stigma. Dylai dillad bob amser fod yn lân ac mewn cyflwr da.

Gallai eiddo coll nad yw'n cael ei hawlio gael ei ailgylchu drwy un o'r cynlluniau hyn er budd teuluoedd incwm isel

- Dylai cymorth ariannol neu gynlluniau gwisg wedi'u caru eisoes a allai fod ar gael gael eu trin yn sensitif gan staff ymroddedig.
- Cynnal archwiliad ar effaith y polisi gwisg ysgol presennol ar yr holl blant, ac yn enwedig y rhai o gefndiroedd incwm isel a chefndiroedd difreintiedig. Adolygu a diweddaru'r polisi gwisg ysgol yn unol â hynny
- Ystyried a yw brandio ar wisg ysgol a chitiau chwaraeon wir yn angenrheidiol. Os ydy, dylid ystyried unrhyw gostau ychwanegol yn hyn o beth ar gyfer rhieni a sut y gall cymorth ariannol gael ei ddarparu. Sicrhau bod polisi'r ysgol yn cydymffurfio â'r Canllawiau Statudol newydd ar wisg ysgol.
- Rhoi arolwg i rieni a disgyblion am yr hyn maen nhw'n ei feddwl am y wisg ysgol a'i chost.
- Sicrhau bod rhieni yn ymwybodol o opsiynau mwy fforddiadwy. Er enghraifft, trefnu 'siopau cyfnewid' gwisg rheolaidd, gan weithio gyda siopau elusennol lleol, a rhoi gwybodaeth ym mhrosbectws yr ysgol, ar ei wefan neu dudalen Facebook.
- Ystyried a allai teuluoedd incwm isel dalu mewn rhandaliadau. Mae rhai ysgolion yn gweithio gydag undebau credyd i helpu gyda chostau gwisg ysgol.
- Meddyliwch am wahanol ddulliau o ddelio ag achosion o beidio â chydymffurfio â pholisi'r ysgol. Os nad yw disgyblion yn cydymffurfio â'r polisi gwisg ysgol, dylai'r dull cyntaf a ddefnyddir gadarnhau p'un a yw popeth yn iawn a gofyn pam, yn hytrach na defnyddio dull cosbol neu anfon disgyblion adref i newid.
- Gall staff yr ysgol sydd â phryderon nad yw gwisg ysgol plentyn yn ei ffitio neu ei fod wedi gwisgo gysylltu â'r Hyrwyddwr Tegwch i helpu i sicrhau'n sensitif bod rhieni'n ymwybodol o unrhyw gymorth sydd ar gael.
- Gall gwobrau sy'n gysylltiedig â gwisgo gwisg ysgol yn gyson achosi stigma ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi. Dylai'r rhain gael eu hosgoi
- Defnyddiwch wersi celf a chrefft i wneud eitemau y gellir eu gwerthu mewn digwyddiadau ysgol i godi arian.


Cyflwyniad 0

Deall Tlodi 1

Gwisg Ysgol a Dillad 2

Bwyd a Newyn 3

Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4

Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative

ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission

PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

## Dim Gwisg Ysgol (gweler Canllaw 4 hefyd)

- Ystyriwch pa blant sy'n aml yn absennol ar ddiwrnod dim gwisg ysgol a pham, ac yna ystyried y rhai sy'n mynd i'r ysgol yn eu gwisg arferol oherwydd eu bod yn 'anghofio' ei bod hi'n ddiwrnod dim gwisg ysgol.
- Meddyliwch am ffyrdd eraill o godi arian ar gyfer elusennau neu gronfeydd ysgolion nad ydynt yn gofyn i deuluoedd gyfrannu'n ariannol, er enghraifft diwrnod sanau od.
- Rhowch fwcedi casglu o amgylch yr ysgol i ddisgyblion osod eu rhoddion ynddynt, yn hytrach na gofyn i athro gasglu'r arian. Gall hyn leihau'r stigma ac annog cyfranogiad gan yr holl blant mewn digwyddiadau codi arian.

Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi cynhyrchu cyfres o Adnoddau[5] a allai helpu ysgolion i symud ymlaen gyda rhai o'r camau a restrir uchod. Mae'r rhain yn cynnwys yr adnodd Cylchdroi a all helpu ysgolion i archwilio a chynllunio cynllun ailgylchu gyda'u disgyblion a staff.

## Enghraifft o Ymarfer

- Mae Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych wedi gweithio gydag ysgolion ar draws y sir, gyda'u canghennau yn Ninbych, Y Rhyl a Rhuthun yn gweithredu fel storfeydd ar gyfer ailgylchu gwisg ysgol. Gall unrhyw un roi gwisgoedd diangen / sydd wedi mynd yn rhy fach ac sydd mewn cyflwr da. Yna maen nhw'n cael eu golchi, eu gwasgu a'u pecynnu i'w gwerthu neu eu rhoi mewn siopau cyfnewid dros dro yn y gymuned.
- Fe wnaeth tair mam sefydlu tudalen Facebook o'r enw rhoi gwisg ysgol Caerdydd a'r Fro a'r Barri[6] ac maen nhw wedi bod yn allweddol wrth weithio gydag ysgolion ar draws De Cymru i sefydlu cynlluniau cyfnewid a rhoi.
- Mae'r CRhA ysgol yn Nwyrain Sussex wedi sefydlu Siop Gwisg Ysgol Dros Dro[7] sy'n gwerthu gwisgoedd ail law o ansawdd da, gyda'r elw'n cael ei ail-fuddsoddi yn yr ysgol.

1 Canllawiau Statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion ar wisg ysgol ac edrychiad, Llywodraeth Cymru, 2019
2 Siarter ar gyfer Newid: Amddiffyn Plant yng Nghymru rhag effaith tlodi, Comisiynydd Plant Cymru, 2019
3 Effaith pwysau ariannol ar blant a phobl ifanc, NASUWT, 2016
4 Arolwg ASCL Mawrth 2019
5 Siarter ar gyfer Newid: Adnoddau
6 *Rhodd gwisg ysgol Caerdydd a'r Fro a'r Barri*
7 Siop Gwisg Pop Up Coleg Frewen

Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5

Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

Pris
**Tlodi Disgyblion**

Defnyddio Dull Ysgol Gyfan i Wella Lles plant o deuluoedd incwm isel a theuluoedd difreintiedig



# 3 Bwyd a Newyn


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Un o fentrau Llywodraeth Cymru
Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

# Cyflwyniad

Mae gan bob plentyn yr hawl i fwyd maethlon digonol a dŵr glân (Erthygl 24, UNCRC). Mae perthynas plant â bwyd wedi bod yn faes ymchwil cynyddol dros nifer o flynyddoedd, ond prin fu'r archwilio i brofiadau byw plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi tan yn fwy diweddar. Mae astudiaethau a gynhaliwyd gan arbenigwyr bwyd, undebau addysg a Chomisiynydd Plant Cymru wedi datgelu tueddiad brawychus a phryderus bod plant yn llwgu yn yr ysgol, a rhai hyd yn oed yn troi at ddwyn bwyd, yn benthyca arian gan ffrindiau neu'n mynd hebddo. Yn niffyg cymorth ychwanegol i helpu i fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd, mae llawer o blant yn annhebygol o ddatblygu'n dda drwy'r ysgol a chyflawni cymwysterau neu ganlyniadau bywyd da.

Nod y canllaw hwn yw nodi'r plant hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt oherwydd ansicrwydd bwyd a newyn ac ystyried ffyrdd y gall ysgolion eu cefnogi orau.




Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5


Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative

ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission

PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

# Y broblem

## Ansicrwydd bwyd

I lawer o deuluoedd yng Nghymru, mae ansicrwydd bwyd yn realiti o ddydd i ddydd, yn bennaf oherwydd diffyg incwm digonol a chostau byw cynyddol. Yn 2018/19 fe wnaeth banciau bwyd yng Nghymru, sy'n cael eu rhedeg gan Ymddiriedolaeth Trussell, roi dros 113,373 o barseli bwyd 3 diwrnod mewn argyfwng, ac aeth 40,793 ohonynt i blant, sy'n gynnydd o bron i 15% ar ffigurau 2017/18.[1] Yn yr Ymchwiliad i Fwyd Plant yn y Dyfodol, dywedwyd bod 160,000 o blant yng Nghymru yn byw mewn teuluoedd y mae deiet iach yn gynyddol anfforddiadwy iddynt[2]. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli'r 20% o blant tlotaf sy'n byw mewn cartrefi a fyddai'n gorfod gwario mwy na 36% o incwm gwario aelwydydd (ar ôl talu am eu tai) ar fwyd er mwyn fforddio diet Canllaw Bwyta'n Iach Llywodraeth y DU.

Dywedodd Cynghrair Tlodi Bwyd De Cymru[3] fod 26% o'r bobl ifanc 16-34 mlwydd oed a holwyd yng Nghymru wedi rhedeg allan o fwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn amcangyfrif, oherwydd y cynnydd ym mhrisiau bwyd, bod yr aelwydydd tlotaf yn y DU wedi talu £130 yn ychwanegol am fwyd a thanwydd yn y flwyddyn ddiwethaf. Un o ganlyniadau net hyn yw cynnydd mewn pwysau afiach, gan gynnwys gordewdra ymhlith plant, nad yw eu rhieni/gofalwyr yn gallu fforddio prynu bwyd iach.

Mae ansicrwydd bwyd yn achosi straen a phryder mewn teuluoedd sy'n gallu peri iselder mewn rhieni/gofalwyr a phlant; ymddygiad ymosodol mewn rhai plant, ac ymdeimlad o anobaith ymhlith teuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w plant.[4] Unwaith y bydd plant yn dechrau yn yr ysgol, i'r rhai sydd wedi'u dal mewn tlodi, mae'r bwyd maen nhw'n ei fwyta yn ystod y diwrnod ysgol yn arbennig o bwysig oherwydd gall y bwyd yn y cartref fod yn annigonol neu'n addas i sicrhau diet iach.

Mae cynllun Cychwyn Iach y GIG ar gyfer teuluoedd incwm isel yn helpu mamau beichiog, rhieni newydd a phlant hyd at 4 mlwydd oed, i fwyta'n iachach. Mae'n rhoi talebau am ddim i brynu llaeth, atchwanegiadau fitaminau a ffrwythau a llysiau ffres neu wedi'u rhewi i deuluoedd sydd ar fudd-daliadau lles. Yn ôl un elusen fwyd[5], mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, mae'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun yn isel iawn, sef tua 55%, ac mae angen gwneud mwy i hyrwyddo'r cynllun, sy'n rhywbeth y gallai ysgolion a meithrinfeydd fod yn gysylltiedig ag ef.

## Prydau Ysgol am Ddim (FSM)

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cinio ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys, y cyfeirir ato fel arfer fel pryd ysgol am ddim. Mae llawer o awdurdodau lleol yn dewis cyflawni eu rhwymedigaeth i ddarparu cinio ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys drwy ddarparu lwfans dyddiol fel y gall disgyblion cymwys gael eu cinio, yn enwedig os oes system caffeteria ar waith. Mae'r lwfans dyddiol yn tueddu i fod yn seiliedig ar yr opsiwn 'pryd y dydd', a dylai hyn alluogi'r disgyblion i gael pryd poeth iachus.

Ni fydd plant sy'n cyrraedd yr ysgol yn llwglyd yn barod i ddysgu a byddant yn dibynnu ar y bwyd y gallant ei gael yn ystod y diwrnod ysgol, yn enwedig prydau ysgol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd, ond nid pob un, mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn gallu gwario'r lwfans dyddiol a roddir iddynt i brynu cinio ysgol am ddim yn ystod egwyl y bore. Fodd bynnag, os nad yw'r ysgol yn caniatáu hyn, efallai y bydd yn annhebygol y bydd ganddynt ddigon o arian i brynu byrbrydau iach amser egwyl, ac os ydynt yn llwglyd, gallent dreulio'r rhan fwyaf o'r bore yn methu â chanolbwyntio yn y dosbarth, gan wylio'r cloc yn cyfrif i lawr i'w hawr ginio. I'r gwrthwyneb, os yw cyfran o'r lwfans dyddiol eisoes wedi'i wario adeg egwyl y bore, mae'n annhebygol y bydd gan y plentyn ddigon ar ôl i brynu 'pryd y dydd' ar gyfer cinio.



Un o fentrau Llywodraeth Cymru
Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Yn aml, mae egwyliau cinio mewn ysgolion uwchradd yn cynnwys egwyl bore a chinio, sy'n llawer hwyrach yn ystod y diwrnod ysgol nag mewn ysgolion cynradd. Mae ciwiau hir yn ystod amser cinio, diffyg amser ac opsiynau iach annigonol yn aml yn ychwanegu at y straen a'r pryder o beidio â chael digon i'w fwyta i lawer o bobl ifanc.

Nid yw pob disgybl sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn manteisio arnynt a gall hyn fod am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys stigma neu ofn bwlio; peidio â gallu eistedd gyda'u ffrindiau sydd â phecyn bwyd; ciwiau hir; dewisiadau bwyd neu gywilydd ac embaras gan eu rhieni/gofalwyr. Gallant ddewis anfon eu plant i'r ysgol gyda phecyn bwyd yn lle hynny, a gallai'r rhain fod yn becyn o greision a darn o ffrwyth os ydynt ar gael. Mae astudiaeth[6] o gymunedau gwledig wedi awgrymu mewn cymunedau llai yn y Gogledd, bod y stigma prydau ysgol am ddim yn fwy amlwg oherwydd 'balchder cefn gwlad'. Gall rhai rhieni/gofalwyr sy'n gweithio nifer o swyddi wrthod derbyn eu hawl i osgoi cael eu dewis fel teulu sydd angen cymorth ariannol ychwanegol.




Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5


Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative

ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission

PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

Yn ôl ystadegau Llywodraeth Cymru am y flwyddyn 2017/18 roedd 74,568 o blant â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Ar ddiwrnod cyfrifiad yr ysgol ym mis Ionawr 2018, manteisiodd 56,881 o ddisgyblion ar eu hawl, gan adael 17,687 na wnaethant fanteisio ar eu hawl (23.7%)[7].

Mae dyletswydd gyfreithiol ar ysgolion i ddiogelu manylion adnabod disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim. Er bod systemau heb arian i dalu am brydau bwyd wedi cael effaith gadarnhaol o ran helpu i leihau unrhyw stigma, gall embaras neu gywilydd atal rhieni/gofalwyr rhag manteisio ar hawl eu plant i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn arbennig o wir mewn cymunedau gwledig llai lle gall pobl fyw yn agos at ei gilydd. Dylai ysgolion bob amser fod yn ymwybodol o unrhyw stigma sy'n gysylltiedig â phrydau ysgol am ddim a chymryd camau cadarnhaol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol.

Datgelodd ymchwil a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru[8] fod plant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr yn adrodd nad oedd lefel eu hincwm yn bodloni'r meini prawf cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim ond ei bod yn dal i gael trafferth darparu arian ar gyfer cinio ysgol.

Caiff cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim ei bennu drwy fanteisio ar rai budd-daliadau a thaliadau cymorth. Yn raddol, mae'r Credyd Cynhwysol yn disodli ystod o fudd-daliadau, gan gwmpasu teuluoedd sydd mewn gwaith a'r rhai nad ydynt yn gweithio. Bydd cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn effeithio ar deuluoedd ar incwm isel a theuluoedd difreintiedig. Ar 1 Ebrill 2019 cyflwynodd Llywodraeth Cymru drothwy incwm net a enillir blynyddol o £7,400 ar gyfer hawlwyr Credyd Cynhwysol sy'n dymuno hawlio prydau ysgol am ddim ar gyfer eu plant. Oherwydd hyn, gallai nifer o blant a phobl ifanc fod wedi colli eu cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim. Cyflwynwyd "diogelwch trosiannol" er mwyn sicrhau y gallai'r plant a'r bobl ifanc hyn barhau i gael prydau ysgol am ddim am gyfnod cyfyngedig, tan ddiwedd y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol (ym mis Rhagfyr 2023) ac wedi hynny hyd at ddiwedd cyfnod y plentyn neu'r person ifanc yn yr ysgol (cynradd neu uwchradd). Mae'r mesurau diogelu trosiannol yn golygu bod dysgwyr oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim pan newidiwyd y meini prawf, neu unrhyw hawlwyr newydd sy'n cael prydau ysgol am ddim yn ystod y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol, yn cael eu diogelu rhag colli prydau ysgol am ddim tra bod y Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ledled Cymru, hyd yn oed os yw eu cymhwysedd yn newid. Nid yw diogelwch trosiannol yn cael ei ymestyn i hawlwyr nad ydynt yn derbyn Credyd Cynhwysol na budd-daliadau etifeddol ac felly nid ydynt yn cael eu heffeithio gan y newid yn y meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Yn ystod y cyfrifiad ysgolion blynyddol, gofynnir i ysgolion gofnodi disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oherwydd y budd-daliadau/taliadau cymorth a gaiff eu rhieni, a'r rhai sy'n cael eu diogelu'n drosiannol.

Plant sy'n byw mewn tlodi ar hyn o bryd nad oes ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim oherwydd bod eu rhieni/gofalwyr mewn cyflogaeth â chyflog isel yn parhau i gael trafferth i dalu am brydau ysgol, yn enwedig pan fo mwy nag un plentyn yn y teulu. Ategir hyn gan ganlyniadau arolwg a gynhaliwyd gan yr Undeb Addysg Genedlaethol[9], lle'r oedd dros 50% o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd digon o blant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, nad oedd eu rhieni/gofalwyr yn gallu fforddio cost prydau ysgol. Mae rhieni/gofalwyr sydd dan straen oherwydd pryderon ariannol hefyd yn llai abl i ddiwallu anghenion emosiynol a chorfforol eu plant. Mae gan awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion y pŵer i weithredu trefniadau codi tâl hyblyg am brydau ysgol. Gall hyn gefnogi teuluoedd incwm is nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Lle defnyddir taliadau hyblyg, gall awdurdodau lleol ac ysgolion weithredu hyrwyddiadau prisiau i gefnogi teuluoedd incwm is a helpu i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar brydau ysgol.[10]



Un o fentrau Llywodraeth Cymru
Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

## Newyn Gwyliau

Mae teuluoedd sy'n dibynnu ar brydau ysgol am ddim yn ystod y tymor yn aml yn ei chael hi'n anodd bwydo eu plant am y 13 wythnos o wyliau ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae melin drafod yng Nghymru[11] yn amcangyfrif bod o leiaf 65,000 o blant mewn perygl o newyn gwyliau yng Nghymru, am 170 diwrnod o'r flwyddyn, am nad yw disgyblion yn gallu cael prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol.

Mae Rhaglen Gyfoethogi Gwyliau Ysgol Llywodraeth Cymru (SHEP)[12], a weinyddir drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn rhaglen sy'n seiliedig ar ysgolion ac sy'n darparu prydau iach, addysg bwyd a maeth, gweithgarwch corfforol a sesiynau cyfoethogi i blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol yn ystod gwyliau'r haf. Ynghyd ag awdurdodau lleol a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd, mae'r rhaglen yn darparu cynlluniau 'Bwyd a Hwyl' ledled Cymru ac yn ddiweddar mae wedi cael ei ehangu i gynnwys mwy o awdurdodau lleol. Mae cynlluniau eraill yn cael eu rhedeg gan sefydliadau elusennol, fel eglwysi a grwpiau cymunedol.

## Brecwast Ysgol

Bydd gan bron pob ysgol rywfaint o brofiad o blant yn cyrraedd yr ysgol heb fwyta brecwast, a gall athrawon dybio eu bod efallai ar frys i beidio â bod yn hwyr ar gyfer dechrau'r diwrnod ysgol neu nad oedd eu rhieni/gofalwyr yn sicrhau eu bod wedi bwyta cyn gadael eu tŷ. Mae dysgwyr sy'n bwyta brecwast hyd at ddwywaith yn fwy tebygol o wneud yn dda yn yr ysgol na'r rhai sydd ddim, yn ôl yr astudiaeth fwyaf o'i bath. Canfu ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd "gyswllt sylweddol" rhwng bwyta brecwast a pherfformio'n uwch na'r cyfartaledd ar sgoriau asesiadau athrawon[13]. Roedd cysylltiad cryf hefyd rhwng bwyta brecwast iach – fel grawnfwyd, bara, llaeth neu ffrwythau – a gwneud yn dda yn yr ysgol.

Gall pob plentyn sy'n mynd i ysgol gynradd a gynhelir gael brecwast iach am ddim yn yr ysgol, os yw ei ysgol yn darparu cynllun brecwast am ddim. Mae tua 82% o ysgolion cynradd yn darparu brecwast iach am ddim yng Nghymru (wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy awdurdodau lleol) ac mae bron i 50% o ysgolion uwchradd yn darparu clybiau brecwast.[14] I blant o gefndiroedd incwm isel, mae cael brecwast iach yn helpu i wella eu gallu i ganolbwyntio yn ogystal â'u hiechyd cyffredinol.




Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5


Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative

ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission

PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES


## Yr Effaith ar Blant a Phobl Ifanc

Mae wedi cael ei brofi bod newyn yn effeithio ar ddysg plant a'u hymddygiad. Ni all plant llwglyd ganolbwyntio, felly mae dysgu'n cael ei amharu. Mae plant llwglyd yn mynd yn fwy blin a dan straen, ac yn aml mae'n cael effaith negyddol ar eu hymddygiad.

Roedd y mwyafrif helaeth (81%) o athrawon yn dweud nad yw plant llwglyd yn gallu canolbwyntio, tra bod 75% yn dweud bod plant sy'n llwglyd yn fwy swrth a 47% yn dweud nad yw plant llwglyd yn gallu dysgu[15]. Gallai'r effeithiau hyn ddylanwadu'n sylweddol ar allu plentyn i gyrraedd eu llawn botensial yn yr ysgol.

Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd[16] yn 2016 gysylltiadau cadarnhaol sylweddol rhwng bwyta brecwast a pherfformiad addysgol:

Nododd arolwg o feddygon teulu[17] yn 2017 fod mwy na 3 o bob 5 o ymatebwyr yn dweud bod ansicrwydd bwyd yn cyfrannu'n fawr iawn at salwch plant roedden nhw'n ei weld, a dywedodd chwarter arall ei fod yn cyfrannu 'rhywfaint'.



> *"Ein nod oedd archwilio'r cysylltiad rhwng bwyta brecwast i blant 9-11 mlwydd oed a'r canlyniadau addysgol a gafwyd 6-18 mis yn ddiweddarach. Cafwyd cysylltiadau arwyddocaol rhwng yr holl ymddygiadau dietegol a gwell perfformiad yn TASau, wedi'u haddasu ar gyfer rhyw a hawl i brydau ysgol am ddim lefel ysgol a lefel unigol."*


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

Yn yr Ymchwiliad i Fwyd Plant yn y Dyfodol[18], holwyd pobl ifanc am effaith tlodi ar eu haddysg. Dywedodd y plant wrth yr Ymchwiliad am ansawdd gwael y bwyd sy'n cael ei gynnig gan ysgolion, annigonolrwydd maint y dognau ac nad yw'r hawl i brydau ysgol am ddim yn ddigon i brynu pryd llawn. Roedd gan y bobl ifanc a gymerodd ran yn yr Ymchwiliad hyn i'w ddweud am fwyd mewn ysgolion:

> *"Yn aml nid yw'r £2.30 mae pobl ifanc sydd ar brydau ysgol am ddim yn ei gael am y diwrnod yn ddigon ar gyfer pryd poeth."*
>
> *'Weithiau, os ydych chi'n teimlo'n llwglyd, gall wneud i chi deimlo'n sâl a gallwch chi lewygu mewn gwersi. Mae Addysg Gorfforol yn arbennig o anodd os ydych yn llwglyd.'*
>
> *'Os nad ydych chi'n bwyta digon amser cinio mae'n eich gwneud yn flinedig, mae'n chwarae gyda'ch ymennydd gan na allwch gyrraedd eich potensial llawn gan nad ydych wedi cael eich bwydo.'*
>
> *'Petaech yn cael cinio ysgol am ddim a bod y prisiau yn parhau i fynd i fyny, byddai llai y gallech ei gael am eich arian. Gallech gael panini, ond nid oedd yn ddigon i'ch cadw chi'n llawn yn ystod y diwrnod ysgol.'*
>
> *"Mae gen i ddau ffrind yn yr ysgol nad ydynt byth yn cael brecwast neu ginio. Mae eu rhieni yn gweithio felly nid ydynt yn cael prydau ysgol am ddim. Nid oes ganddynt arian i brynu cinio byth. Mae'r ddau bob amser yn llwglyd. Rwy'n mynd â bwyd ychwanegol bob dydd ar eu cyfer. Nid ydym yn siarad am y peth. Mae ganddyn nhw ormod o gywilydd. Ni fyddent yn dweud wrth athrawon. Mae llawer o ddwyn yn ystod amser cinio gan blant eraill. Maen nhw'n cael y bwyd a gadael y ciw cyn iddynt gyrraedd y til. Maen nhw'n llwglyd, ond nid oes ganddynt arian."*

Roedd yr ymatebwyr ifanc hefyd yn pryderu nad oedd gan ysgolion uwchradd unrhyw ffordd o fonitro sut mae dysgwyr yn bwyta neu os ydyn nhw'n bwyta digon o'r bwydydd cywir.

Fe wnaeth tystiolaeth o adroddiad Comisiynydd Plant Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019[19], glywed gan blant, pobl ifanc, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol am fwyd yn yr ysgol. Mae'r adroddiad yn dyfynnu plant yr oedd eu teuluoedd ar incwm isel ond nad oedd ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim oedd yn cael eu gwrthod am bryd amser cinio am nad oedd arian wedi cael ei ychwanegu ar eu cardiau talu. Roedd rhai plant yn mynd yn llwglyd oherwydd, gan nad oes gan rai teuluoedd sy'n ceisio lloches hawl i dderbyn arian cyhoeddus, nid oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim oherwydd eu statws mewnfudo ansicr. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddarparu prydau ysgol am ddim i blant mudwyr heb statws mewnfudo sicr a dylid annog hyn i sicrhau nad yw plant byth yn mynd yn llwglyd. Canfu'r adroddiad, lle'r oedd plant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, nad oedd y lwfans yn cynnwys pryd bwyd priodol gyda diod amser cinio. Clywodd y gweithiwr prosiect am ysgol a oedd wedi cau ei ffynhonnau dŵr ac roedd angen i'r disgyblion brynu dŵr yn lle hynny, er bod gofynion statudol ar waith sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddŵr yfed am ddim fod ar gael i bob disgybl.

Mewn rhai ysgolion, roedd ciwiau hir yn ystod amser cinio yn golygu mai ychydig o amser oedd ar gael i fwyta'r pryd bwyd a lle'r oedd egwyliau cinio mewn cyfnodau, roedd y rhai ar ddiwedd y ciw yn cael eu gadael ag ychydig neu ddim dewis. Bydd disgyblion sydd wedi cael eu cadw ar ôl amser cinio yn colli allan yn gyfan gwbl yn aml.

Gwyddom fod tlodi ac amddifadedd yn ddangosyddion allweddol o fod dros bwysau yn ystod plentyndod. Lefelau gordewdra ymysg plant yng Nghymru o dan 5 mlwydd oed yw'r uchaf yn y DU, gyda 26.4% o blant sy'n dechrau'r ysgol gynradd yn cael eu dosbarthu dros bwysau neu'n ordew. Nid yw llawer o rieni/gofalwyr yn gallu manteisio ar ddigon o fwyd iach ac yn aml nid oes ganddynt unrhyw ddewis arall ond i roi bwyd cyfleus i'w plant heb fawr o werth maethol. Ni ellir tanbrisio pa mor bwysig yw pryd ysgol iach i'r plant hyn.




Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

# Beth All Ysgolion Ei Wneud

Mae llawer y gall ysgolion ei wneud i helpu dysgwyr o deuluoedd sydd ar incwm isel neu deuluoedd difreintiedig sy'n destun ansicrwydd bwyd. Er enghraifft, gallai ysgolion:

- Recriwtio 'Hyrwyddwr Tegwch' o blith staff yr ysgol sydd â'r rôl o nodi, monitro a chefnogi dysgwyr o deuluoedd incwm isel neu deuluoedd difreintiedig, ac ymgysylltu â'u rhieni/gofalwyr mewn modd cadarnhaol a sensitif.

Awgrymodd y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r Ymchwiliad i Fwyd Plant yn y Dyfodol y byddai presenoldeb athro/athrawes priodol a oedd yno i ddelio â'r materion hyn yn ei gwneud yn haws i siarad am broblemau newyn. Drwy roi aelod o staff yn yr ystafell fwyta, byddai'n rhoi gwell dealltwriaeth i'r ysgol o ba ddysgwyr oedd yn cael trafferth gyda materion bwyd ac yn caniatáu iddynt roi ffyrdd mwy effeithiol o ymdrin â phroblemau ar waith yn y dyfodol.

- Penodi 'Llysgennad Tegwch' o blith y disgyblion yn yr ysgol, a all nodi pa ddisgyblion sy'n llwglyd, neu'r rai nad oes ganddynt fawr ddim i'w fwyta yn ystod y diwrnod ysgol. Dylid rhoi cymorth priodol i'r disgybl penodol hwn, a dylai allu cysylltu â staff yr ysgol a'r Hyrwyddwr Tegwch er mwyn sicrhau bod materion bwyd yn cael sylw.
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff yr ysgol o sut i nodi pa blant sy'n dangos arwyddion o fod eisiau bwyd, a sut i ymateb yn sensitif a chysylltu â staff priodol.
- Sicrhau bod yr holl rieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r rhaglen prydau ysgol am ddim. Cefnogi rhieni/gofalwyr i wneud cais am brydau ysgol am ddim a manteision eraill fel y cynllun Talebau Cychwyn Iach.
- Dechrau sgwrs ar ansicrwydd bwyd fel rhan o'r cwricwlwm, i chwalu mythau a lleihau stigma.
- Rhoi arolwg i bob dysgwr i nodi lle gallai'r rhwystrau fod i sicrhau bod pawb yn cael eu trin â pharch ac urddas.
- Os yw eich ysgol yn rhan o'r cynllun Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd, sicrhewch fod gan yr ysgol ddigon o leoedd clwb brecwast am ddim ar gyfer yr holl blant sydd angen un. Os yw'r clybiau brecwast wedi' u gordanysgrifio, ceisiwch atebion gyda'r awdurdod lleol er mwyn osgoi troi neb i ffwrdd.
- Os yw'r nifer sy'n manteisio ar glybiau brecwast yn isel ymysg teuluoedd incwm isel, ystyriwch sut y gall yr ysgol weithio gyda'r awdurdod lleol i gynyddu'r nifer sy'n ei dderbyn, gan gynnwys y disgyblion hynny y mae eu rhieni/gofalwyr mewn teuluoedd sy'n gweithio ar gyflog isel.
- Sicrhau bod cyfathrebu da rhwng yr awdurdod lleol, ysgolion a rhieni/gofalwyr mewn perthynas â'r hawl i ginio ysgol am ddim ac unrhyw newidiadau sy'n digwydd.
- Sicrhau bod dŵr am ddim bob amser ar gael i ddisgyblion yn unol ag adran 6 Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009, a bod ffynhonnau dŵr sydd wedi torri neu sydd mewn cyflwr gwael yn cael eu hatgyweirio'n llawn. Drwy gynnig dŵr yfed am ddim i ddisgyblion, mae ysgolion yn helpu i hyrwyddo dewisiadau iachach, lleihau gwastraff plastig a sicrhau bod plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu o deuluoedd incwm isel yn gallu defnyddio eu harian i brynu bwyd.


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5


Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative

ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission

PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

- Adolygu bwydlenni'r ysgol a sicrhau bod dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn gallu fforddio a gallu gwneud dewisiadau iach yn yr hyn y maen nhw'n dewis ei fwyta.
- Adolygu'r logisteg ynghylch amseroedd bwyd yn yr ysgol. Cynnal archwiliad o amserau cinio i weld lle gellir gwneud gwelliannau, er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn ddewisiadau bwyd iach a fforddiadwy a bod ganddynt ddigon o amser i'w fwyta. Yn ddelfrydol, ni ddylai'r egwyl amser cinio fod yn hwyrach na 12.30pm.
- Os yw ysgolion yn ymwybodol o deuluoedd bregus sy'n cael trafferth gyda dyledion prydau ysgol, dylent roi gwybod i dîm arlwyo'r awdurdod lleol, ac annog y teuluoedd i siarad â'r tîm arlwyo.
- Archwilio ffyrdd y gellir cwmpasu cost cinio ysgol pan fydd disgybl yn cael anawsterau i dalu, er enghraifft drwy fenthyg arian cinio a darparu rhywfaint o fwyd i blant nad ydynt yn cael prydau bwyd pan fydd ei angen arnynt.
- Ystyried sut i siarad gyda rhieni/gofalwyr yn sensitif ynghylch ôl-ddyledion prydau ysgol, drwy weithio gyda'r teulu i geisio datrys y sefyllfa ac ystyried dileu'r ddyled fel dewis olaf.
- Dylid gwneud staff ysgol yn ymwybodol o p'un a ydynt yn ddarparwr Rhaglen Gyfoethogi Gwyliau Ysgol neu'n rhan o gynllun bwyd gwyliau lleol arall. Dylent hefyd fod yn ymwybodol o ba ddarpariaeth leol arall sydd ar gael, lle y gall plant gael pryd iach yn ystod gwyliau'r ysgol, fel y rhai sy'n cael eu rhedeg gan elusennau, eglwysi neu grwpiau cymunedol lleol.
- Dylid cynnwys pob dysgwr i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Plant wedi cynhyrchu Adnodd 'Gwirio gyda Ceri'[20] a allai helpu ysgolion i symud ymlaen gyda rhai o'r camau a restrir uchod. Mae'r adnodd rhad ac am ddim yn helpu ysgolion i weithio gyda phlant, pobl ifanc a staff ysgolion i feddwl am; gostau'r diwrnod ysgol, sut y gallent effeithio ar deuluoedd sy'n byw mewn tlodi, yr hyn sy'n gweithio'n dda a gwneud cynllun ar gyfer yr hyn y gellid ei wella. Mae dau fersiwn o'r adnoddau ar gyfer dysgwyr CA2 a CA3/4.

## Enghraifft o Ymarfer

1. Mae Rhaglenni Cyfoethogi Gwyliau Ysgol yn gweithredu mewn llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru, mewn partneriaeth â sefydliadau statudol a chymunedol eraill. Er enghraifft, mae'r cynllun Bwyd a Hwyl yng Nghaerdydd yn bartneriaeth rhwng Cyngor Caerdydd, Bwyd Caerdydd, tîm Iechyd Cyhoeddus y Bwrdd Iechyd Prifysgol lleol a Chwaraeon Caerdydd, a ddarparodd y gweithgareddau ar gyfer y rhaglen.
2. Bu un ysgol gynradd yng Nghymru yn hyrwyddo'r rhaglen prydau ysgol am ddim trwy gael baner 6'x3' ar draws yr ysgol yn ystod pythefnos gyntaf tymor yr Hydref, gyda gwybodaeth am sut i wneud cais.
3. Mae adroddiad Estyn 'Hapus ac Iach'[21] yn enwi un ysgol uwchradd sydd, drwy'r awdurdod lleol, wedi gwella gwerth maethol cinio drwy wneud cynhyrchion bara, fel tost, paninis a baguettes gyda blawd gwenith cyflawn. Cyflwynwyd y newid ar ôl ymgynghori â disgyblion.
4. Mae 'The Choice is Yours', siop ffrwythau a llysiau teuluol yn Abertawe wedi ymuno â Chynllun Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru, i ddarparu ffrwythau ffres i nifer o ysgolion ar draws ardal Abertawe, sy'n cael eu rhannu yn ystod amser egwyl.



Un o fentrau Llywodraeth Cymru
Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES




1 Ymddiriedolaeth Trussel, Ystadegau Diwedd Blwyddyn Ebrill 2018 – Mawrth 2019
2 Ymchwiliad i Fwyd Plant yn y Dyfodol, Adroddiad Terfynol Mai 2019
3 Tlodi Bwyd yn Ne Cymru: Galwad i Weithredu, Cynghrair Tlodi Bwyd De Cymru, Chwefror 2019
4 Ansicrwydd Bwyd Plant yn y DU: adolygiad cyflym, Aceves-Martins, Cruickshank, Fraser a Brazzelli, Ymchwil Iechyd y Cyhoedd F6: 13 Tach 2018
5 Gwella y nifer sy'n defnyddio talebau Cychwyn Iach, gwefan Cynnal (cyrchwyd 7/6/19)
6 Ailfeddwl am Gyrhaeddiad Addysgol a Thlodi – yn Adroddiad Terfynol Cymru Wledig, ap Gruffudd, GS et al 2017
7 Llywodraeth Cymru, Darparu Prydau a Llaeth, Ystadegau Cymru
8 Siarter ar gyfer Newid - Amddiffyn Plant yng Nghymru rhag Effaith Tlodi, Comisiynydd Plant Cymru, 2019
9 Tlodi plant ac addysg: Arolwg o brofiadau aelodau NEU, NEU 2017
10 Codi tâl am fwyd a diod a ddarperir gan ysgolion a gynhelir, Llywodraeth Cymru
11 12 Diwrnod y Nadolig, Ffeithiau Newyn Gwyliau, Sefydliad Bevan 2018
12 Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol (SHEP), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru 2018
13 Cysylltiad rhwng bwyta brecwast a chanlyniadau addysgol ar gyfer plant 9 i 11 mlwydd oed
14 Darparu prydau a llaeth, Ystadegau Cymru, 2019
15 Addysg Coll: Realiti newyn yn yr ystafell ddosbarth, Kelloggs 2013
16 , Cysylltiad rhwng bwyta brecwast a chanlyniadau addysgol ar gyfer plant 9 i 11 mlwydd oed. Hannah J Littlecott, Graham F Moore, Laurence Moore, Ronan A Lyons, Prifysgol Caerdydd 2016
17 Tlodi ac iechyd plant - Safbwyntiau o'r rheng flaen, RCPCH, 2017
18 Ymchwiliad i Fwyd Plant yn y Dyfodol – Yr hyn mae pobl ifanc yn ei ddweud am fwyd, Sefydliad Food 2019
19 Siarter ar gyfer Newid - Amddiffyn Plant yng Nghymru rhag Effaith Tlodi, Comisiynydd Plant Cymru, 2019
20 Siarter ar gyfer Newid: Adnoddau
21 'Hapus ac Iach: effaith yr ysgol ar iechyd a lles disgyblion, Estyn, 2019





Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES



# 4 Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol

Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5

Un o fentrau Llywodraeth Cymru
Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Cyflwyniad

I raddau helaeth, bydd y graddau y mae'r dysgwr yn cymryd rhan ac yn ymgysylltu â bywyd yr ysgol yn pennu eu canlyniadau addysgol hirdymor. Gall disgyblion sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel neu deuluoedd difreintiedig wynebu heriau sylweddol o ran gallu cymryd rhan ac elwa ar yr ystod amrywiol o gyfleoedd cwricwlaidd ac allgyrsiol sydd ar gael i ddysgu mewn ysgolion.

Nod y canllaw hwn yw nodi'r plant hynny sy'n aml yn wynebu rhwystrau ychwanegol i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol ac ystyried ffyrdd y gall ysgolion eu cefnogi orau.

# Y Broblem

Mae Deddf Addysg (1996) yn nodi na all ysgolion godi tâl am unrhyw ddeunyddiau sy'n ymwneud â chyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau i Lywodraethwyr Ysgolion[1] i gefnogi hyn, darganfu ymchwiliad a gynhaliwyd gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol[2] fod costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag addysg wedi profi yn rhwystr, o ran cyfranogiad disgyblion ac o ran ymgysylltiad rhieni.

Cydnabyddir yn gyffredinol, gyda llymder parhaus, fod cyllidebau ysgolion yn cael eu gwasgu flwyddyn ar ôl blwyddyn a bod ysgolion yn gorfod cymryd camau eithafol i dorri costau. Un o ganlyniadau hyn sy'n effeithio'n arbennig ar blant o deuluoedd incwm isel neu deuluoedd difreintiedig, yw bod gofyn cynyddol ar rieni i dalu 'cyfraniadau gwirfoddol' i dalu am neu i sybsideiddio eitemau fel llyfrau gwaith, deunydd ysgrifennu, cyfrifianellau a deunyddiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno pynciau cwricwlaidd. Yn aml, gall llyfrau testun ysgolion fod yn brin a rhaid iddynt gael eu rhoi ar fenthyg, felly mae'n rhaid i ddysgwyr sydd eisiau cwblhau gwaith cartref neu waith cwrs weithiau aros yn hir. Gall rhai gwerslyfrau fod wedi dyddio neu mewn cyflwr gwael. Mae rhieni sy'n gallu fforddio prynu'r gwerslyfrau ac eitemau cysylltiedig ar gyfer eu plant yn gwneud hynny, gan roi mantais bendant iddynt dros eu cyfoedion llai cefnog.




Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

Mae ymchwil ar draws y DU wedi canfod bod 81% o athrawon wedi addysgu disgyblion nad oedd ganddynt yr offer cywir ar gyfer gwersi am na allent ei fforddio, gyda 58% o'r athrawon wedi gweld cyfarpar yn cael ei fenthyg neu ei roi i ddisgyblion gan ysgolion. Mae arolygon dilynol o athrawon wedi canfod bod y sefyllfa i ddisgyblion sy'n byw mewn tlodi yn mynd yn waeth flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yng nghynhadledd flynyddol NWU ym mis Ebrill 2019, roedd 50% o'r cynrychiolwyr yn credu bod 'presenoldeb ac effeithiau' tlodi wedi gwaethygu neu'n waeth o lawer ers 2016.

> *"Mae ymchwil wedi dangos bod cynnydd wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf o ran graddfa a chwmpas yr ysgolion sy'n codi tâl am weithgareddau, gan gynnwys mewn meysydd fel offer addysgol ac ymweliadau. Dywedodd un rhan o bump o'r rhieni y gwnaethant eu harolygu eu bod wedi gorfod talu am deithiau maes sy'n elfen orfodol o gwrs. A dywedodd chwarter y rhieni eu bod wedi codi tâl am destun neu lyfrau cyfeiriol."*[3]

Gall disgwyliadau ac ymatebion athrawon, i'r dysgwyr hynny sy'n cyrraedd yr ysgol heb yr adnoddau neu'r deunyddiau cywir ar gyfer gwersi, amrywio'n aruthrol rhwng ysgolion a rhwng athrawon yn yr un ysgol. Gall disgwyliadau anghyson ac arferion ansensitif fod yn ddryslyd ac yn frawychus i lawer o blant, y mae eu rhieni, er gwaethaf eu hymdrechion gorau, yn methu fforddio unrhyw gostau ychwanegol.

## Tripiau Ysgol

Ni ellir codi tâl am dripiau ysgol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar godi tâl yn datgan na ddylid codi tâl am dripiau ysgol ar deuluoedd unrhyw blentyn sy'n cael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae'r ffigurau'n dangos nad yw hyd at 30% o deuluoedd â phlant sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn manteisio arnynt oherwydd stigma neu embaras, ac nid yw llawer o deuluoedd incwm isel yn bodloni'r trothwy cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Efallai na fydd disgyblion yn y sefyllfaoedd hyn yn gallu fforddio cost unrhyw 'gyfraniadau gwirfoddol' a awgrymir a gallent golli allan. I blant sydd hefyd ag anghenion cymorth ychwanegol, gall fforddiadwyedd fod yn rhwystr mwy byth

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Godi Tâl mewn Ysgolion yn datgan:

> *"Wrth drefnu tripiau a gweithgareddau ysgol, dylai cyrff llywodraethu a phenaethiaid wneud cymaint ag sy'n ymarferol i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yn cael eu rhoi dan anfantais yn annheg. Mae'r pwysau o ran cost ar deuluoedd ag incymau isel yn sylweddol, a dylai cyrff llywodraethu a phenaethiaid geisio sicrhau nad yw hyn yn cael ei waethygu er anfantais i'r plentyn neu'r person ifanc. Mae'n bwysig cydbwyso gwerth addysgol teithiau preswyl yn erbyn eu cost ariannol."*

Mae colli allan ar ymweliadau a thripiau addysgol yn golygu bod disgyblion nad yw eu teuluoedd yn gallu fforddio'r gost yn teimlo'n ynysig, yn chwithig ac yn siomedig. Nid yn unig maen nhw'n colli allan o werth addysgol a chyfoethogi'r daith, maen nhw hefyd yn colli allan ar y disgwyliad a'r cyffro cyn trip, a'r straeon a phrofiadau sy'n cael eu rhannu ar ôl y digwyddiad ymysg eu grŵp cyfoedion. Gallant ddod o hyd i ffyrdd o amddiffyn eu hunain a'u teulu rhag y cywilydd o fethu â bod yn bresennol, rhag cael eu hallgáu oherwydd eu camymddygiad, mynegi diffyg diddordeb mewn mynychu neu salwch.



Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES



'Roedd trip hanes i'r Pwll Mawr, wnes i ddim mynd ar hwnnw. Yr oedd yn rhy ddrud i fynd, ni allai mam fforddio ar y pryd, roedd o dros ugain punt. Fe wnes i ddod adref a siarad â mam am y peth ac ni allem ei fforddio… Roeddwn i'n teimlo'n ddrwg pan oedd pawb yn dod yn ôl ac yn dweud cymaint [o] amser anhygoel oedden nhw wedi'i gael.'[4]

Mae disgyblion wedi dweud eu bod wedi teimlo cywilydd wrth orfod gofyn i athrawon am help i dalu am gostau trip ysgol, a'r 'costau ychwanegol' a gysylltir yn aml â thripiau preswyl, megis dillad priodol, offer a bagiau cysgu. Hyd yn oed os yw ysgolion yn gallu sybsideiddio neu dalu'n llawn am wibdeithiau, yn nodweddiadol, mae costau ychwanegol o ran arian gwario sydd ei angen ar gyfer gweithgareddau, bwyd a byrbrydau ychwanegol. Nid yw'n beth dieithr i rieni fynd i ddyled a chymryd benthyciadau llog uchel i alluogi eu plant i fynychu. Mae rhywfaint o arian ar gyfer tripiau ysgol ar gael drwy Grant Mynediad Amddifadedd Disgyblion Llywodraeth Cymru i helpu i dalu am offer ychwanegol ar gyfer teithiau o'r fath.




Un o fentrau Llywodraeth Cymru
Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES



## Gweithgareddau Cyfoethogi

Mae gweithgareddau cyfoethogi'n prysur ddod allan o gyrraedd llawer o blant mewn teuluoedd incwm isel gan na all ysgolion fforddio cynnig y rhain am ddim mwyach. Er enghraifft, er bod Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth ar draws y sir gyfan, nid yw llawer o gynghorau yn darparu offerynnau cerdd nac yn cynnig gwersi cerdd am ddim mewn ysgolion, gan fod y rhain yn dod o dan y categori 'gweithgareddau ychwanegol dewisol'. Mae cost gitâr rad (tua £50) y tu hwnt i fodd teuluoedd incwm isel ac mae'n rhaid i ysgolion mewn llawer o awdurdodau lleol yn godi tâl am hyfforddiant cerddoriaeth.

Gall gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n cael eu cyflwyno am ddim, fel clybiau gwaith cartref, cymorth cyntaf neu weithgareddau chwaraeon hefyd fod y tu hwnt i lawer o ddysgwyr sy'n dibynnu ar gludiant am ddim i'r ysgol sy'n dod yn rhwystr i ddysgwyr allu aros ymlaen ar ôl diwedd y diwrnod ysgol arferol. Os nad yw dysgwr yn gallu cwblhau gwaith cartref gartref, efallai y bydd yn cael ei gynghori i fynd i'r clwb gwaith cartref, ond nid yw hyn bob amser yn bosibl.

Mae mentrau codi arian neu ddiwrnodau 'hwyl', lle mae disgyblion yn talu swm bach i ddod i'r ysgol yn eu dillad eu hunain neu'n cael eu hannog i wisgo i fyny yn lle gwisgo eu gwisg ysgol yn gallu effeithio ar bresenoldeb plant ac nid yw'n anghyffredin i ddisgyblion gadw i ffwrdd o'r ysgol. Gall plant gael eu cau allan mewn nifer o ffyrdd. Mae'n bosibl na fydd eu rhieni/gofalwyr yn gallu fforddio'r gost ychwanegol, yn enwedig os oes ganddynt fwy nag un plentyn yn yr ysgol. Efallai na fydd gan blant y mae eu rhieni/gofalwyr yn dod o hyd i'r arian ar gyfer digwyddiadau o'r fath y dillad neu'r wisg 'cywir' i'w gwisgo, a byddant yn dod i'r ysgol yn eu gwisg swyddogol, gan ddweud eu bod wedi 'anghofio' mewn ymgais i osgoi embaras, stigma neu allgau.

Mae'r arfer o brynu i athrawon ar ddiwedd y flwyddyn ysgol wedi dod yn norm mewn llawer o ysgolion ac mae rhieni yn aml yn ceisio prynu anrheg drud neu anarferol ar gyfer athrawon. Unwaith eto, gall hyn fod yn her ac yn bwysau i deuluoedd sydd ar incwm isel, a all deimlo y gallai'r ysgol, rhieni eraill neu ddisgyblion eraill gamddehongli'r ffaith nad ydynt yn prynu anrheg ar ddiwedd tymor/blwyddyn. Gall gweithgareddau diwedd tymor, fel digwyddiadau 'ymadawyr', a drefnir yn aml gan rieni eraill, hefyd fod yn gostus ac unwaith eto maen nhw'n eithrio llawer o ddysgwyr nad ydynt yn gallu cyfrannu'n ariannol ac a fydd felly'n colli allan.




Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

# Yr Effaith ar Blant a Phobl Ifanc

Mae disgyblion o deuluoedd incwm isel neu deuluoedd difreintiedig yn ymwybodol iawn o wahaniaethau cymdeithasol ac maen nhw'n poeni am stigma ac yn cael eu barnu gan eu cyfoedion a'u hathrawon. Mae'n effeithio'n negyddol ar eu hunan-barch, eu hyder a'u lles, a'u gallu cyffredinol i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Datgelodd ymchwil yn y DU fod 63% o blant o deuluoedd incwm isel neu deuluoedd difreintiedig yn teimlo cywilydd oherwydd nad oedd eu teulu'n gallu fforddio o leiaf un gost o'r ysgol a dywedodd 46% eu bod yn teimlo cywilydd oherwydd nad oedd ganddynt y ffôn cywir neu declyn electronig arall.[5]

Dywedodd un person ifanc wrth Gomisiynydd Plant Cymru, pe na bai ganddo'r llyfrau testun cywir, y gallai eu benthyg yn yr ysgol ond na allai fynd â nhw adref, gan eu gadael dan anfantais o'u cymharu â'r rheini y gallai eu rhieni fforddio'r llyfrau.[5]

Gall y pynciau y mae dysgwyr yn dewis eu gwneud ar lefel TGAU neu 'safon uwch' fod yn ddibynnol iawn ar gostau ategol cymryd y pwnc hwnnw. Er enghraifft, efallai na fydd plentyn sy'n dalentog mewn celf, dylunio a thechnoleg, neu gerddoriaeth a drama yn gallu cymryd y pwnc oherwydd costau ychwanegol adnoddau a deunyddiau, na all eu teulu eu fforddio. Mae tua 30% o blant o deuluoedd incwm isel wedi syrthio ar ei hôl hi yn y pynciau craidd am na allai eu teulu fforddio'r llyfrau neu'r deunyddiau angenrheidiol.[5]



> 'Ar gyfer dylunio mae'n rhaid i ni dalu £6 i wneud ein modelau a mynd â nhw adref. Felly, os nad ydym yn talu amdano, yna ni allwn ei ddefnyddio felly rydym wedi ei wneud am ddim rheswm.'




Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative

ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission

PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

## Canran y dysgwyr y mae incwm isel yn effeithio ar eu perfformiad academaidd *




*Y Comisiwn Plant ar Dlodi, Cymdeithas y Plant, 2014

Enghraifft arall yw darpariaethau Technoleg Bwyd a'r gallu i fynd â bwyd adref. Fel rheol gyffredinol, mae ysgolion yn codi tâl am gynhwysion coginio ond gallant gyflenwi'r rhain i ddysgwyr na all eu teuluoedd fforddio cost cynhwysion. Fodd bynnag, er bod dysgwyr sy'n prynu eu cynhwysion eu hunain yn gallu mynd â chynnyrch terfynol adref, nid yw hyn yn wir bob amser am y rhai y mae'r ysgol yn darparu ar eu cyfer. [5] Mae'n ymddangos bod camau gweithredu rhai ysgolion yn deillio o bolisi codi tâl yr ysgol, a all nodi bod unrhyw 'offer' a gyflenwir gan yr ysgol yn parhau i fod yn eiddo i'r ysgol. Mae hyn yn gwadu'r ymdeimlad o gyflawniad i'r dysgwr wrth fynd â'r eitemau a wnaed ganddo, adref i'r teulu eu mwynhau. Gall yr effaith negyddol gynnwys diffyg cymhelliant, gyda'r disgybl yn ymddieithrio o'r rhannau hynny o'r cwricwlwm.




Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

# Beth All Ysgolion Ei Wneud

Bydd cymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol a'r holl gyfleoedd a gyflwynir gan weithgareddau dosbarth a gweithgareddau allgyrsiol yn cynyddu hyder, hunan-barch a sgiliau cymdeithasol y dysgwyr ac, yn y pen draw, eu cyrhaeddiad addysgol. Mae llawer y gall ysgolion ei wneud i helpu disgyblion o deuluoedd sydd ar incwm isel neu deuluoedd difreintiedig ac i oresgyn llawer o rwystrau i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol. Er enghraifft, gallai ysgolion recriwtio 'Hyrwyddwr Tegwch' o blith staff presennol ysgolion sy'n ceisio nodi, monitro a chefnogi dysgwyr o deuluoedd incwm isel neu deuluoedd difreintiedig, ac ymgysylltu gyda'u rhieni/gofalwyr mewn modd cadarnhaol a sensitif.

## Dewisiadau Pwnc

- Dylid sicrhau nad yw unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyrsiau TGAU neu Safon Uwch penodol yn atal disgybl rhag ymgymryd â chwrs penodol. Ni ddylid perswadio dysgwyr rhag dewis pwnc penodol neu wynebu rhwystrau ariannol i gymryd rhan lawn.
- Mae angen mynediad at a/neu hysbysu rhieni am grantiau neu fwrsariaethau addysg bach a all gefnogi dysgwyr i brynu'r adnoddau arbenigol angenrheidiol sydd eu hangen i ymgymryd â phwnc penodol.

## Tripiau a Gweithgareddau

- Mae angen i ddulliau o gymorthdalu costau tripiau ysgol fod yn sensitif ac yn ddi-stigma. Er enghraifft, ni ddylid disgwyl i ddisgyblion orfod gofyn am help. Bydd aelod o staff dibynadwy sy'n gallu sgwrsio gyda disgyblion mewn modd sensitif yn gwneud iddynt deimlo llai o stigma a chywilydd. Dylai'r dull hwn fod yn rhan annatod o bolisïau'r ysgol ac yn ethos yr ysgol.

Gallai mesurau eraill gynnwys:

- Os oes gan ysgolion Hyrwyddwr Tegwch neu aelod staff lles disgyblion penodol, gallai rhan o'u rôl fod yn berthnasol i grantiau bach y gellir eu defnyddio tuag at gefnogi cost tripiau ysgol.
- Trefnu tripiau ysgol sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch i'r mwyafrif o ddisgyblion.
- Rhoi digon o rybudd am dripiau sy'n cael eu trefnu a fydd yn galluogi rhieni/gofalwyr i gynllunio a chyllidebu'n haws.
- Gallai'r opsiwn o dalu drwy randaliadau leihau'r pwysau ar rieni a'u plant hefyd.
- Codi ymwybyddiaeth o'r Grant Mynediad Amddifadedd Disgyblion sy'n gallu cyfrannu neu dalu am dripiau ysgol, ymysg teuluoedd y dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim (a phlant sy'n derbyn gofal).
- Ymgysylltu â chwmnïau, mentrau a sefydliadau lleol i ddod â gweithgareddau i mewn i'r ysgol, yn hytrach na mynd â phlant allan o'r ysgol. Er enghraifft, gall


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

cwmnïau sy'n darparu ar gyfer partïon plant sy'n seiliedig ar thema megis partïon anifeiliaid, hefyd ymweld ag ysgolion.

- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i rieni ar fenthycwyr cost isel, fel undebau credyd.
- Cymorth i ddysgwyr mewn dosbarthiadau lle mae taith wedi'i chynllunio i helpu i gynnal gweithgareddau codi arian, yn gysylltiedig â'r cwricwlwm, i helpu i dalu am y trip.

Mae gweithgareddau codi arian, nad ydynt yn gofyn i ddisgyblion am arian yn uniongyrchol, yn niferus ac amrywiol, yn dibynnu ar anghenion, cyfleusterau ac adnoddau'r ysgol a gallant gynnwys:

- ▶ Nofio noddedig neu daith feicio rithwir ar feic ymarfer corff i leoliad y trip
- ▶ Hysbysebu digwyddiadau codi arian ar gyfryngau lleol a chymdeithasol
- ▶ Trefnu casgliad archfarchnad neu gasgliad blanced mewn digwyddiadau chwaraeon lleol
- ▶ Trefnu cyfweliad ar orsaf radio leol a gwneud apêl
- ▶ Cael y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon neu'r Cyngor Rhieni i drefnu digwyddiad noddedig, megis Noson Bingo neu Gwis Tafarn
- ▶ Cael busnesau lleol i noddi sesiynau codi sbwriel mewn parc lleol neu yng nghanol tref

Mae nifer o wefannau y gellir dod o hyd iddynt gyda mwy o syniadau ac awgrymiadau ar gyfer codi arian.

Gellir defnyddio'r adnoddau 'Gwirio gyda Ceri' a ddatblygwyd gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru i helpu ysgolion a disgyblion i nodi costau ac atebion i faterion a nodir yn y canllaw hwn.[6]

## Enghraifft o Ymarfer

1. Mae Cronfa Roced yn llwyfan cyllido torfol dielw sy'n arbenigo mewn ariannu torfol ar gyfer ysgolion (mae llwyfannau eraill ar gael).
2. Mae Busnes yn y Gymuned, mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, yn rhedeg rhaglen o'r enw 'Dosbarth Busnes' sy'n adeiladu partneriaethau rhwng ysgolion a busnesau, gan gydweddu anghenion yr ysgolion a blaenoriaethau busnesau.

1 Canllawiau i Gyrff Llywodraethu ar Godi Tâl am Weithgareddau Ysgol, Llywodraeth Cymru 2013
2 Ymchwiliad i Ganlyniadau Addysgol i Blant o Aelwydydd Incwm Isel, CCC 2015
3 Trwy Lygaid Ifanc, Cymdeithas y Plant 2013
4 Ar Ba Gost? Amlygu Effaith Tlodi ar Fywyd yr Ysgol, Cymdeithas y Plant, 2014
5 Siarter ar gyfer Newid: Amddiffyn plant rhag effaith tlodi, Comisiynydd Plant Cymru, 2019
6 Siarter ar gyfer Newid: Adnoddau



Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES



# 5 Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol

Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5

Un o fentrau Llywodraeth Cymru
Welsh Government Initiative

ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

# Cyflwyniad

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y berthynas rhwng y cartref a'r ysgol. Mae cysylltiad cydnabyddedig rhwng yr amgylchedd dysgu yn y cartref a pherfformiad plant o bob oedran yn yr ysgol. Mae ymchwil wedi dangos bod y graddau y mae teuluoedd yn ymgysylltu â'r ysgol yn fwy dylanwadol ar gyrhaeddiad addysgol y plentyn nag ansawdd yr addysgu. Bydd lle mae plentyn yn byw, gyda phwy y mae'n byw, a'r amgylchedd y mae'n byw ynddo i gyd yn effeithio ar allu plentyn a'i barodrwydd i ddysgu yn yr ysgol, yn ogystal â'i iechyd meddwl a'i les yn y presennol a'r dyfodol. Mae tystiolaeth dda bod plant y mae eu rhieni yn cymryd rhan gadarnhaol yn addysg eu plentyn yn fwy tebygol o gyflawni canlyniadau addysgol gwell. Mae llawer o ysgolion yn rhagweithiol iawn ac eisoes yn gwneud yn dda o ran ymgysylltu â theuluoedd ac o ran nodi atebion i oresgyn y rhwystrau i hwyluso gwell perthynas rhwng y cartref a'r ysgol.

# Y Broblem

## Ymgysylltiad Rhieni

Bydd pob rhiant/gofalwr am gael y gorau i'w plant, waeth beth fo'u sefyllfa bresennol, eu cefndir neu eu profiad blaenorol o ddysgu a'r ysgol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd gan rai dysgwyr o gefndiroedd incwm isel a chefndiroedd difreintiedig rieni/gofalwyr sy'n llai tebygol o gymryd rhan weithredol yn addysg ac astudiaethau eu plant. Bydd y modd y mae teuluoedd yn rhyngweithio â'r ysgol y mae eu plant yn ei mynychu yn dibynnu ar nifer o ffactorau, o brofiadau eu plentyndod eu hunain yn yr ysgol, i ba raddau y mae'r ysgol yn dod o gartref y plentyn, i ymrwymiadau gwaith a chyfrifoldebau gofalu, a pha mor barod yw'r ysgol tuag at ymgysylltu â rhieni.

Canfuwyd bod sefydlu cysylltiadau agosach rhwng yr ysgol a'r cartref yn cael effaith gadarnhaol ar les y disgybl.[1] Mae rhai ysgolion yn gwneud ymdrechion mawr i ymgysylltu â rhieni/gofalwyr, fel hyrwyddo mentrau sy'n anelu at feithrin cysylltiadau cryf rhwng ysgolion a rhieni drwy ddigwyddiadau dysgu i deuluoedd, diwrnodau agored anffurfiol ac ymweliadau cartref.

Cydnabyddir ei bod hi'n llawer haws meithrin a chynnal perthynas â rhieni/gofalwyr mewn ysgolion cynradd nag ydyw yn yr ysgol uwchradd, yn rhannol oherwydd nifer y disgyblion. Fodd bynnag, os yw rhieni/gofalwyr yn ymwneud â'r ysgol gynradd, mae'n fwy tebygol y byddant yn parhau i gymryd diddordeb gweithredol yn addysg eu plentyn, unwaith y byddant yn symud i'r ysgol uwchradd.

Mae cyfathrebu effeithiol â theuluoedd, wedi'i deilwra i wahanol anghenion rhieni, yn hanfodol er mwyn sicrhau ymgysylltiad cadarnhaol â rhieni. Mae'r dulliau o gyfathrebu â theuluoedd gan ysgolion yn amrywio'n aruthrol, a byddant yn arwain at ganlyniadau gwahanol fel arfer. Mae rhai ysgolion yn anfon llythyrau at rieni/gofalwyr, nad ydynt yn cael eu gweld yn aml. Mae rhieni wedi adrodd bod cyfathrebu ysgrifenedig o ysgolion yn aml yn anodd ei ddeall, nid yw'r Saesneg yn glir bob amser ac nid yw bob amser yn cael ei dderbyn. Defnyddir negeseuon testun yn gyffredinol ar gyfer cyhoeddiadau pwysig, fel cau ysgolion, ac mae cyfryngau cymdeithasol fel Twitter hefyd yn boblogaidd fel dull o gyfathrebu gan rai ysgolion. Efallai na fydd rhai teuluoedd incwm isel neu deuluoedd difreintiedig yn ymgysylltu ag ysgolion am nad oes ganddynt y sgiliau llythrennedd a chyfathrebu angenrheidiol, na'r hyder i ymateb drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Gall polisi 'drws agored', neu gael aelod o staff penodedig, megis gweithiwr cynhwysiad teulu sydd ar gael ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol y gall rhieni siarad ag ef, fod yn werthfawr o ran meithrin ymddiriedaeth a pherthynas rhwng rhieni a'r ysgol.





Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

## Gwaith Cartref

Gall rhieni/gofalwyr wynebu llawer o rwystrau hefyd wrth gefnogi dysg eu plentyn.  Nododd adroddiad ar hawliau plant yng Nghymru[2] fod 10% o blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a 6% o'r plant nad ydynt yn gymwys, heb gyfrifiadur yn y cartref.  Dywedodd rhieni o deuluoedd incwm isel wrth Ymchwiliad gan Lywodraeth Cymru[3] nad oeddent yn gallu helpu eu plant gyda'u gwaith cartref, naill ai am nad oedd ganddynt y sgiliau angenrheidiol neu am fod ganddynt nifer o swyddi neu gyfrifoldebau gofalu cystadleuol, oedd yn eu gadael heb fawr ddim amser i gefnogi eu plant yn iawn.

Mae cyfrifiaduron a chysylltiad â'r rhyngrwyd yn y cartref yn gynyddol angenrheidiol i blant gael mynediad at eu gwaith cartref ac i'w gwblhau.  Dywedodd plant wrth ymchwilwyr eu bod wedi syrthio y tu ôl[4] yn yr ysgol oherwydd nad oedd eu teulu'n gallu fforddio'r offer angenrheidiol na'r cyfleusterau rhyngrwyd gartref, neu eu bod yn byw mewn ardal heb wasanaeth band eang annigonol.

Mae llawer o ysgolion yng Nghymru bellach yn defnyddio meddalwedd neu apiau gwaith cartref i osod gwaith cartref ac yn gofyn iddo gael ei gyflwyno ar-lein.  Efallai nad oes gan deuluoedd incwm isel gyfrifiadur sy'n gallu cefnogi'r meddalwedd sydd ei angen i gwblhau gwaith cartref neu sydd ag un ddyfais yn unig sy'n cael ei rhannu rhwng sawl plentyn ac aelod o'r teulu.  Mae clybiau gwaith cartref yn ddatblygiad cadarnhaol ond efallai na fyddant bob amser yn hygyrch i blant o deuluoedd difreintiedig, gan na fydd y rhai sy'n dibynnu ar gludiant am ddim i gyrraedd adref yn gallu bod yn bresennol. Gall dysgwyr gael eu hannog i ddefnyddio'r llyfrgell leol i gwblhau eu gwaith cartref ond gall hyn hefyd greu rhwystrau os yw'r llyfrgell agosaf gryn bellter i ffwrdd, neu os oes rhaid iddynt aros i gyfrifiadur ddod ar gael.  Effeithiwyd ar lawer o lyfrgelloedd cyhoeddus hefyd gan doriadau awdurdodau lleol, gan leihau eu horiau agor neu maen nhw wedi cael eu cau.



'Rydym yn cael llwyth o waith cartref ac mae'r rhan fwyaf ohono ar y cyfrifiadur… Roedd yn rhaid i mi ddweud wrth yr athro/athrawes i argraffu taflen fel y gallwn ei llenwi ond roedd yr athro'n dweud nad oedd y gwaith cartref o ansawdd digon uchel. Byddwn ond yn sgorio pump neu dri allan o 10.'

Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5

Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

## Trafnidiaeth

Mae teithio am ddim i blant o dan 16 mlwydd oed rhwng eu cartref a'r ysgol yn dibynnu ar bellter, yn hytrach na gallu teulu i dalu. Ar gyfer disgyblion ysgol gynradd mae'n 2 filltir neu fwy o'r ysgol a 3 milltir ar gyfer disgyblion uwchradd. I'r disgyblion hynny sy'n byw o fewn pellter cerdded, neu'r rhai nad ydynt yn y dalgylch, mae'r tocyn bws plant wythnosol yn costio tua £10 yr wythnos yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y gallai costau cludiant fod mor uchel â £80 y mis ar gyfer teulu sydd â 2 blentyn o oedran ysgol, sy'n gost sylweddol i deuluoedd ar incwm isel i ddod o hyd iddo bob mis. Ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 21 mlwydd oed, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r cynllun Fy Nhocyn Teithio [5], sy'n rhoi gostyngiad o ⅓ oddi ar bris tocyn bws, ond gallai nifer o fyfyrwyr o deuluoedd incwm isel neu deuluoedd difreintiedig ei chael hi'n anodd o hyd i ddod o hyd i'r arian hwnnw ar gyfer teithio.

Mae dibyniaeth ar gludiant ysgol yn effeithio ar allu dysgwr i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n digwydd ar ôl diwedd y diwrnod ysgol, fel clybiau cyfoethogi neu glybiau gwaith cartref a gweithgareddau chwaraeon. Os na all teulu fforddio talu am opsiynau trafnidiaeth cyhoeddus amgen i alluogi eu plentyn i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, yna bydd eu plentyn yn colli cyfleoedd pwysig i ddysgu, chwarae a rhyngweithio'n gymdeithasol.



Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5

Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

## Amgylchedd y cartref

Gall amgylchedd y cartref fod yn alluogwr neu'n rhwystr sylweddol o ran penderfynu sut mae plant yn ymwneud â'r ysgol ac yn perfformio ynddi. Gall digartrefedd, ansicrwydd o ran tai, gorlenwi a byw mewn tai is-safonol i gyd gael effaith negyddol ar lefelau cyrhaeddiad disgybl. Er enghraifft, mewn cartref gorlawn, mae'n annhebygol y bydd unrhyw le tawel gydag ychydig o le personol i gwblhau gwaith cartref neu dasgau y tu allan i'r ysgol. Bydd tai gwael sy'n oer neu'n llaith hefyd yn cael effaith negyddol ar les a dysgu plant. Dywedodd un pennaeth, a gyfwelwyd yng Nghasnewydd, y mae ei ysgol yn ymweld â theuluoedd pob disgybl newydd sy'n dod i'r Flwyddyn Derbyn, fod diffyg hanfodion megis carpedi, peiriant golchi, teledu neu ddodrefn mewn rhai cartrefi maen nhw'n ymweld â nhw.

Mae byw mewn cyflwr tai anodd yn cael effaith gymdeithasol ac emosiynol ar blant. Mae cywilydd a stigma yn achosi straen a phryder i'r rhieni/gofalwyr a'r plant. Gall effeithio ar gyfeillgarwch a chyfyngu ar ryngweithio cymdeithasol, gan fod plant yn aml yn teimlo na allant wahodd ffrindiau adref oherwydd bod ganddynt gywilydd o'u cartref neu nad oes ganddynt y lle angenrheidiol. Gall hyn beri rhwystredigaeth i rai plant sy'n dymuno astudio neu gwblhau tasgau ysgol mewn grŵp gyda'u cyfoedion.

Gall ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o amgylchedd cartref dysgwr alluogi ysgolion i benderfynu ar y math o gymorth a lefel y cymorth y mae ar blentyn ei angen gan staff ysgol. Gall gwybod beth yw'r rhwystrau mae plant o deuluoedd incwm isel yn eu hwynebu helpu ysgolion i deilwra eu cymorth yn ôl profiad byw'r plentyn.




Cyflwyniad 0

Deall Tlodi 1

Gwisg Ysgol a Dillad 2

Bwyd a Newyn 3

Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4

Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative

ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission

PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

# Beth All Ysgolion Ei Wneud

Mae llawer y gall ysgolion ei wneud i helpu i gefnogi dysgwyr o deuluoedd incwm isel neu deuluoedd difreintiedig a gwella'r berthynas dysgu gartref rhwng dysgwyr, rhieni/gofalwyr a'r ysgol. Er enghraifft, gallai ysgolion wneud y canlynol:

- Recriwtio 'Hyrwyddwr Tegwch' o blith staff yr ysgol sydd â'r rôl o nodi, monitro a chefnogi dysgwyr o deuluoedd incwm isel neu deuluoedd difreintiedig, ac ymgysylltu â'u rhieni/gofalwyr mewn modd cadarnhaol a sensitif.
- Datblygu diwylliant ysgol gyfan sy'n rhoi gwerth ar ymgysylltiad rhieni ac sy'n darparu awyrgylch croesawgar a chadarnhaol o fewn yr ysgol i rieni/gofalwyr.
- Ystyried cynnwys Pecyn Cymorth Ymgysylltu Teuluol Llywodraeth Cymru[6].

Ystyried ymgymryd â'r cynllun gwobrwyo Buddsoddwyr mewn Teuluoedd Cymru. Mae gan eu gwefan lawer o wybodaeth ac adnoddau. Penodi gweithiwr ymgysylltu â theuluoedd, y gellid ei ariannu drwy'r Grant Datblygu Disgyblion, i feithrin cysylltiadau â rhieni/gofalwyr sy'n wynebu rhwystrau a heb lawer o gyswllt â'r ysgol.

Cynnig cyfleoedd i rieni/gofalwyr ar gyfer eu dysgu a'u datblygiad eu hunain drwy gyflwyno digwyddiadau dysgu teuluol mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Er enghraifft, gellid cynnal gweithdy ar gynhwysiant ariannol mewn partneriaeth â'r undeb credyd lleol, banc neu Gyngor ar Bopeth.

Gallai ysgolion cynradd fabwysiadu polisi o ymweld â phob disgybl newydd yn eu cartref. Nid yn unig bydd gan ddisgyblion newydd wyneb cyfarwydd ar eu diwrnod cyntaf, ond bydd gan rieni gwell dealltwriaeth o ethos yr ysgol a bydd yr ysgol yn cael cipolwg ar amgylchedd y cartref ac unrhyw anghenion cymorth sydd eu hangen.

Adolygu polisi gwaith cartref yr ysgol i sicrhau ei fod yn gynhwysol ac yn rhoi ystyriaeth i allu pob dysgwr i gwblhau tasgau gwaith cartref yn y cartref.
Dylai ysgolion archwilio ffyrdd y gellir cwblhau rhai tasgau gwaith cartref yn ystod y diwrnod ysgol heb amharu ar amser hamdden ac amser cinio.
Cael grantiau i brynu gliniaduron, naill ai i'r holl ddisgyblion neu nifer llai i'w defnyddio gan ddisgyblion sydd heb offer TG i'w defnyddio ar gyfer gwaith cartref yn y cartref. Mae nifer o wefannau i helpu gyda hyn, mae un enghraifft i'w chael yma (mae eraill ar gael).

Gallai ysgolion uwchradd gyflwyno Noson Groeso i Rieni er mwyn cwrdd â thiwtoriaid personol, gyda lluniaeth ysgafn efallai, er mwyn annog rhieni i fynd i'r ysgol a rhoi cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau ystyrlon.

Dylid bod yn sensitif bob amser i amgylchiadau cartref disgyblion o deuluoedd incwm isel neu deuluoedd difreintiedig, gan gynnwys y disgyblion hynny sydd â chyfrifoldebau gofalu, rhieni sy'n gweithio mewn swyddi â chyflog isel a'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofal plant.

Ystyriwch pa bryd mae'r ysgol yn cynnal clybiau gwaith cartref, i'w gwneud yn hygyrch i ddysgwyr y gallai eu teulu gael trafferth i fforddio'r cyfarpar TG diweddaraf, ond hefyd dylech gofio y gallai'r un dysgwyr hyn golli allan ar bryd ysgol amser cinio os cynhelir clybiau yn ystod y cyfnod hwn.


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

Cynnal archwiliad neu arolwg o bwy sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol, i sefydlu a yw cludiant ysgol yn rhwystr i ddysgwyr difreintiedig sy'n mynychu gweithgareddau a sut y gellid goresgyn hyn.

Gweithio gyda Chymdeithasau Rhieni ac Athrawon neu Gynghorau Ysgol i feddwl am ffyrdd arloesol o annog cyfranogiad gan deuluoedd incwm isel neu deuluoedd difreintiedig o ran dweud eu dweud ym mywyd yr ysgol. Ystyried sefydlu Cyngor Rhieni i helpu i lywio a chefnogi ffyrdd o wella ymgysylltiad rhieni

Cynnwys pob plentyn yn y broses o wneud penderfyniadau Gellir defnyddio'r adnoddau a ddatblygwyd gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru i helpu ysgolion a disgyblion i nodi costau ac atebion i nifer o'r materion a nodir yn y canllaw hwn.[7]

## Enghraifft o Ymarfer

1. Yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson mae creu cysylltiadau cryfach â rhieni/gofalwyr yn rhan o weledigaeth ehangach i roi lles wrth wraidd cenhadaeth yr ysgol a gweithio'n agosach gydag amrywiaeth o asiantaethau cymunedol, gan gynnwys gwasanaethau plant yr awdurdod lleol a sefydliadau sy'n canolbwyntio ar deuluoedd. Mae'r ysgol yn edrych y tu hwnt i giât yr ysgol ac yn mynd i'r afael â rhwystrau yn y cartref a'r gymuned. Maen nhw'n rhoi pwys mawr ar berthnasoedd cadarnhaol rhwng yr ysgol, teuluoedd a'r gymuned. Maen nhw'n gweithio'n galed i feithrin perthynas â rhieni/gofalwyr fel eu bod yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol ac yn cymryd diddordeb agos yn addysg eu plant. Mae hyn wedi cynnwys ymyriadau megis y Cyngor Rhieni, gyda'r amcanion o ymgysylltu a llais y rhieni/gofalwyr; hwb rhieni'r ysgol - sy'n agor bob dydd ac yn caniatáu i famau a thadau gymysgu ar safle'r ysgol - darpariaeth dysgu i oedolion, ond hefyd staffio priodol a datblygiad proffesiynol.

2. Mae Ysgol Tŷ Gwyn yn ysgol arbennig i bob oedran sy'n darparu ar gyfer dysgwyr ag anghenion dwys a chymhleth. Mae gan yr ysgol Ganolfan Deulu, ar agor bob dydd yn ystod y tymor, sy'n cael ei staffio gan un cynorthwyydd addysgu lefel uwch ac un uwch gynorthwyydd addysgu. Mae'r ganolfan yn darparu ystod eang o gymorth a hyfforddiant i deuluoedd gyda phlant 0 – 19 mlwydd oed, yn cynnwys hyfforddiant y Blynyddoedd Rhyfeddol i rieni/gofalwyr, cymorth therapi, therapi cyffwrdd, llyfrgell deganau a chanolfan technoleg gynorthwyol, cwnsela, ymweliadau cartref a gwaith allgymorth, sesiynau celfyddydau creadigol a gwersi Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL). Mae'r ysgol yn gwerthuso'r holl weithgareddau gan ddefnyddio holiaduron a chyfweliadau wyneb yn wyneb ac mae lefel uchel o ymgysylltiad a gweithgarwch gyda rhieni/gofalwyr a'r gymuned oherwydd yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael.

3. Mae dull ysgol gyfan Ysgol Uwchradd Casnewydd yn cynnwys pob aelod o'r staff sy'n addysgu. Mae gan bob un sesiwn cyswllt cartref awr o hyd ar eu hamserlen, pan fyddant yn cysylltu gyda rhieni/gofalwyr ei grŵp tiwtor. Mae hyn fel arfer yn cynnwys galwad ffôn cadarnhaol i dynnu sylw at un agwedd galonogol o gynnydd academaidd y disgybl, agwedd tuag at fywyd yr ysgol neu ymddygiad. Mae'r dull ysgol gyfan yn cael ei gefnogi gan swyddog ymgysylltu â theuluoedd, a ariennir gan y Grant Datblygu Disgyblion, sy'n gweithio i gynyddu ymglymiad y teulu ym mywyd yr ysgol, yn enwedig y teuluoedd hynny y mae eu plant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Maen nhw hefyd yn mynychu diwrnodau adolygu academaidd ac yn trefnu gweithdai a digwyddiadau dysgu rheolaidd i rieni/gofalwyr. Mae tiwtoriaid Bl 7 yn ymweld â disgyblion sy'n symud o Flynyddoedd 6 i 7 mewn sesiynau bwydo cynradd.



Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

4. Ysgol Parc Waundew Richmond Park yn rhedeg mentrau 'PEAS' (Rhieni'n Ymgysylltu'n Weithredol yn yr Ysgol) a 'DREAMS' (Datblygu Darllen, Saesneg a Mathemateg) wedi'u hanelu at ymgysylltu gyda rhieni/gofalwyr i wella presenoldeb, llythrennedd a rhifedd. Mae teuluoedd yn cael eu hannog i fynd i'r ysgol gyda 'Dydd Gwener Teuluol', Clwb Dysgu Uniongyrchol a chlwb 'Gemau Cenhedlaeth' ar ôl yr ysgol lle mae rhieni/gofalwyr a phlant yn mynychu gyda'i gilydd, gan gynnwys TGCh, darllen a sgiliau coginio ac ati. Mae'r ysgol yn helpu teuluoedd i ddatblygu ymagweddau cyson at lythrennedd a rhifedd ('eu haddysgu i addysgu'). Mae cyfrifon 'Clwb Chwilod' a 'Sumdog' yn caniatáu i bob plentyn gael mynediad at lyfrau a deunyddiau rhifedd yn y cartref. Mae gwirfoddolwyr darllen sy'n rhieni/gofalwyr yn helpu mewn ystafelloedd dosbarth. Mae teuluoedd hefyd yn ymgysylltu drwy Facebook a Twitter. Mae oedrannau darllen, canolraddau rhifedd a chyfraddau presenoldeb i gyd wedi gwella'n sylweddol.


1 Arfer dda o ran cynnwys rhieni, Estyn 2009
2 Hawliau Dynol Plant yng Nghymru: Adolygiad Tystiolaeth, WISERD/Comisiynydd Plant Cymru, 2018
3 'Ymchwiliad i Ganlyniadau Addysgol Plant o Gartrefi Incwm Isel ' Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015
4 Ar Ba Gost - Effaith Tlodi ar Fywyd yr Ysgol, Cymdeithas y Plant, 2014
5 Fy Nhocyn Teithio, gwefan Llywodraeth Cymru
6 Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Gymuned a Theuluoedd ar gyfer Ysgolion yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, 2016
7 Siarter ar gyfer Newid: Adnoddau





Un o fentrau Llywodraeth Cymru
Welsh Government Initiative
ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission
PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES